

ARCHWILIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN (2018-2033)

Pwyntiau Gweithredu - Sesiwn Gwrandawriad 1 – Paratoi'r Cynllun a Fframwaith Strategol y CDLI Diwygiedig

Dydd Mawrth, 15 Hydref 2024 rhwng 10:00 a 17:00

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
AP1/1	Mewnosod y testun canlynol ar ôl paragraff 4.23 a Ffigur 4: Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 wedi'i osod yng nghyd-destun gweledigaeth a fydd yn helpu i ddarparu lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi'r gwaith o greu lleoedd a sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y lleoedd cywir, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, creu a chynnal cymunedau iach a hygyrch, gwarchod ein hamgylchedd a chefnogi ffyniant i bawb. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cyd-fynd â darpariaethau Cymru'r Dyfodol a'r 11 o ganlyniadau sydd gan y cynllun (fel y'u nodir ym Mhennod 3 Cymru'r Dyfodol) ac yn cefnogi ei rôl wrth yrru twf cynaliadwy a brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd drwy lywio datblygiad strategol dros yr 20 mlynedd nesaf.	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	Mae polisïau a darpariaethau'r CDLI Diwygiedig yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflawni'r weledigaeth a'i hamcanion strategol, yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol a strategol y Cyngor. Mae'r polisïau a'r darpariaethau hyn yn cynnwys ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y CDLI Diwygiedig, gan sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gysoni â chynnwys Cymru y Dyfodol. O ganlyniad, mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r 11 canlyniad gan gynnwys twf cynaliadwy, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a llai o lygredd, y Gymraeg, bioamrywiaeth ac ecosystemau cysylltiedig a lleoedd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau ac ati. Ceir amryw ddarpariaethau yn Cymru'r Dyfodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Sir Gaerfyrddin, gyda Llanelli a Rhydaman/Cross Hands yn dod o fewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol Bae Abertawe fel y'u diffinnir yn fras. Mae Polisi 28 Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli fel ardal a fydd yn brif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn Rhanbarth y De-orllewin. Mae'r CDLI yn cydnabod hyn fel ffocws ar gyfer twf a buddsoddi trwy nodi aneddiadau o fewn haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau. Yn yr un modd, caiff Caerfyrddin ei nodi fel Canolfan Dwf Ranbarthol ac mae Castellnewydd Emlyn yn ffurfio rhan o Ardal Dwf Ranbarthol canolbarth Cymru yn unol â (Polisi 25). Mae Cymru'r Dyfodol yn darparu ar gyfer twf a reolir yn yr ardaloedd hyn sy'n ymwneud â'u swyddogaethau is-ranbarthol pwysig a'u cysylltiadau cryf ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae hefyd yn nodi'r angen am: brosesau rheoli adnoddau naturiol, llifogydd, a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol ac y dylent lywio	

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	penderyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd; datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau'r argyfwng hinsawdd ac y dylai hyn fod yn ganolog i bob achos o gynllunio rhanbarthol; ac yn cydnabod y potensial sydd gan Sir Gaerfyrddin o'r lleoliad hwn ar gyfer datblygu, arloesi a buddsoddi newydd sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r rôl o greu lleoedd yn llifo trwy bolisi cynllunio cenedlaethol ac mae'r CDLI Diwygiedig yn ei hymgorffori fel elfen ganolog ynddo. Mae Cymru'r Dyfodol, fel rhan o'r agenda hon, hefyd yn nodi nifer o egwyddorion creu lleoedd strategol, gan gynnwys galluogi ardaloedd trefol i gefnogi gwytnwch ecosystemau yn ogystal â chynyddu dwysedd poblogaeth trefi a dinasoedd sydd wedi'u bwriadu i greu lleoedd cynaliadwy a chynhwysol yn gymdeithasol.	
AP1/2	Mae'r testun canlynol i'w fewnosod ar ôl y newid a gynigir uchod mewn ymateb i AP1/1. Cynlluniau Datblygu Strategol Mae'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Rhanbarth y De-orllewin wedi'i ddiffinio gan ardal weinyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac fel y'i nodir yn Cymru'r Dyfodol. Ffurfiwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a gyfansoddwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, yn ogystal ag o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	Mae gan y Pwyllgor rôl strategol allweddol o fewn y rhanbarth o ran gwella cynlluniau rhanbarthol, cydlynu a darparu trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni. Mae'r rôl hon yn adlewyrchu'r ffocws ehangach ar weithio a chydweithio rhanbarthol ar draws rhanbarth amrywiol, sy'n cynnwys ardaloedd gwledig helaeth ac ardaloedd trefol, sydd i gyd wedi'u lleoli o fewn ac o amgylch rhai o amgylcheddau naturiol ac adeiledig pwysicaf Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol y dyfodol gydymffurfio â gofynion Polisi 19. Yn hyn o beth, rhaid iddynt ystyried ac ymateb i'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir yn Cymru'r Dyfodol sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio creu Cymru fwy cynaliadwy, iach a thecach. Bydd disgwyl i Gynlluniau Datblygu Strategol ddangos sut y bydd y fframwaith gofodol y maent yn ei ddatblygu, a'r dewisiadau allweddol a wneir ganddynt, yn cyfrannu at gyflawni'r Canlyniadau. Mae rôl Cynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol a'r berthynas â'r CDLI Diwygiedig wedi bod yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, gyda chydweithio rhanbarthol yn elfen bwysig. Yn hyn o beth, cyfeirir yn benodol at y diffiniad gofodol o'r Ardal Dwf Genedlaethol a baratowyd ar y cyd gan yr awdurdodau ledled y rhanbarth. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i lywio darpariaethau'r CDLI Diwygiedig a bydd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol sydd i ddod. Mae'n dangos sut y mae strategaethau gofodol a hierarchaethau aneddiadau'r CDLI Diwygiedig a'r Cynllun Datblygu Strategol yn cyd-fynd â darpariaethau Cymru'r Dyfodol a'i ganlyniadau. Mae Sir Gaerfyrddin wedi cydweithio, a bydd yn parhau i weithio, gydag awdurdodau ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru, a'r rheiny o fewn rhanbarth canolbarth Cymru, ar ddarpariaethau a chynnwys y Cynllun	

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	Datblygu Strategol yn y dyfodol. Er bod y Cynllun Datblygu Strategol yn ei gamau cychwynnol, mae'r Cyngor wedi mynd ati i weithio gydag awdurdodau cyfagos ar y trefniadau llywodraethu a'r gofynion ffurfiannol ar gyfer ei baratoi. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu tystiolaeth gyffredin a fydd yn ategu'r gwaith o baratoi a chyflawni'r CDLI Diwygiedig a bydd yn helpu i lywio a thanategu cynnwys Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth mewn perthynas â Hyfywedd Datblygu, Asesiadau'r Farchnad Dai Leol, Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd, Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, ac Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 1 De-orllewin Cymru.	
AP1/3	Diwygio Amcan Strategol SO4 fel a ganlyn: SO4 Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad i dai, gwasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog.	Cytunir ar y newid.
AP1/4	Diwygio cynnwys y Cynllun i adlewyrchu cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12. Dylid cyfeirio at y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (a'r fersiwn gyfansawdd o'r Cynllun) sy'n ystyried y cyfeiriad wedi'i ddiweddarau at Bolisi Cynllunio Rhifyn 12.	Cytunir ar y newid.
AP1/5	Diwygio polisi SP13 fel a ganlyn. Polisi Strategol – SP 13: Datblygu Gwledig Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu a fydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau gwledig y Sir. Dylai cynigion datblygu	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	mewn ardaloedd gwledig ddangos eu bod yn cefnogi rôl aneddiadau gwledig yn yr hierarchaeth aneddiadau er mwyn bodloni anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol cymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin. Bydd cynigion datblygu yng nghefn gwlad y tu hwnt i'r aneddiadau dynodedig yn cael eu cefnogi lle maent yn cyd-fynd â pholisïau'r Cynllun hwn a pholisi cynllunio cenedlaethol.	
AP1/6	Cyfeirir at Atodiad 1 a 2 isod	Cytunir ar y newid.
AP1/7	Dileu Polisi SG2 - Safleoedd wrth Gefn a'i gyfiawnhad rhesymegol o'r Cynllun, gan ddiwygio Polisi SG3 – Penrhyn Pen-bre o ganlyniad a fydd yn cymryd ei le fel y Polisi SG2 newydd. Yn ogystal, diwygiwyd yr holl groesgyfeiriadau dilynol eraill yn unol â hynny trwy bob rhan o'r Cynllun.	Cytunir ar y newid.
AP1/8	Diwygio polisi SD1 fel a ganlyn: SD1: Terfynau Datblygu Caiff terfynau datblygu eu diffinio ar y map cynigion ar gyfer yr aneddiadau hynny sy'n cael eu nodi fel Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Cynaliadwy o fewn Polisi Strategol SP3. Bydd cynigion o fewn Terfynau Datblygu a ddiffinnir yn cael eu caniatáu, yn amodol ar bolisïau a chynigion y Cynllun hwn, polisïau cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol. Mewn aneddiadau gwledig a'r tu allan i derfynau datblygu diffiniedig bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol. Bydd tai newydd	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	mewn aneddiadau Haen 4 yn cael eu hystyried yn erbyn Polisi HOM3. Rhif paragraff newydd: Mae terfynau datblygu yn fecanwaith allweddol ar gyfer helpu i reoli twf yn y dyfodol trwy ddiffinio'r ardal lle byddai datblygu fel arfer yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio materol. Mae'r terfynau datblygu wedi'u cymhwyso i'r Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Cynaliadwy fel y'u diffinnir ym Mholisi Strategol SP3: Dosbarthiad Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau. Dangosir y terfynau datblygu ar y Map Cynigion. 11.75 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, mae terfynau datblygu wedi'u diffinio ar draws yr holl aneddiadau o fewn Haenau 1, 2, a 3, er mwyn: • Atal datblygu amhriodol yng nghefn gwlad a rhoi sicrwydd ac eglurder ynghylch lle y gellir ystyried bod cynigion eithriadau (yn gyfagos i derfynau) yn briodol; • Atal cyfuno aneddiadau (neu rannau ar wahân o'r un anheddiad), datblygiad hirgul annerbyniol neu ddatblygiad tameidiog. • Nodi'r ardaloedd hynny lle byddai cynigion datblygu yn cael eu caniatáu (gweler uchod); a • Hyrwyddo defnydd effeithiol a phriodol o dir sy'n canolbwyntio twf o fewn aneddiadau diffiniedig. Rhif Paragraff Newydd: Mewn aneddiadau gwledig (Haen 4) a'rtu allan i'r terfynau datblygu diffiniedig bydd cynigion ar gyfer datblygu yn cael eu rheoli'n llym a dim ond yn unol â pholisïau'r Cynllun y byddant yn cael eu cefnogi, a/neu os ystyrir bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol o ystyried natur y cynnig, yn unol â'r Polisi a'r Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol.	

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	Rhif Paragraff Newydd: Mae'r rhagdybiaeth yn erbyn unrhyw gynigion amhriodol y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig yn rhoi eglurder ynghylch y lleoliadau priodol ar gyfer datblygu yn y dyfodol a bydd yn sicrhau bod twf yn cael ei reoli'n strategol. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i dai a allai fod yn briodol y tu hwnt i ffiniau aneddiadau gan ystyried polisïau'r cynllun (dylid cyfeirio yn benodol at AHOM2) a Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol. Rhif Paragraff Newydd: Mae Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a pholisïau'r Cynllun hwn yn cydnabod bod cyfleoedd cyflogaeth lleol o fewn aneddiadau gwledig yn bwysig i gynnal a gwella cymunedau. Cyfeirir at Bolisi EME 4 sy'n darparu ar gyfer cynigion cyflogaeth priodol y tu allan i'r terfynau datblygu, yn ogystal ag EME2 mewn perthynas ag ehangu mentrau gwledig presennol. Yn hyn o beth mae'r Cynllun, yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol, yn cydnabod bod gan fentrau ar raddfa fach rôl hanfodol yn yr economi wledig a'u bod yn cyfrannu at gystadleurwydd a ffyniant lleol a chenedlaethol. Yn hyn o beth gall nifer o weithgareddau masnachol a gweithgynhyrchu ysgafn gael eu lleoli'n briodol mewn ardaloedd gwledig heb darfu mewn modd annerbyniol neu achosi unrhyw effeithiau niweidiol eraill, gan ganiatáu ar gyfer arallgyfeirio'r economi wledig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig y Sir lle mae'r Cynllun yn cefnogi cyflogaeth a mentrau gwledig. 11.76 Nid yw pob tir ar Fap Cynigion a Mapiau Mewnosod wedi ei nodi ar gyfer datblygiad penodol, nac yn destun polisi penodol. Gall ardaloedd sylweddol o dir ymddangos fel tir heb ei anodi yn y Cynllun. Bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried ar sail eu rhinweddau unigol yn erbyn darpariaethau'r CDLI hwn, ac ystyriaethau perthnasol eraill.	
AP1/8	Y Rhesymeg Mewn perthynas â'r elfen o'r pwynt gweithredu sy'n ymwneud â'r wybodaeth gefndir, cynhaliwyd yr adolygiad o'r terfynau datblygu gan arfer dull cynhwysfawr, gan ddefnyddio amrywiol ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys amlinellu terfynau datblygu presennol o fewn cynlluniau datblygu blaenorol, cyflwyniadau safleoedd ymgeisio a'r data perthnasol ynddynt, hanes ceisiadau	Cytunwyd.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	cynllunio a mewnbwn gan aelodau lleol. Cynhaliwyd hyn yn unol â'r fethodoleg a nodir yn y papur pwnc ar Derfynau Datblygu (Rhagfyr 2018) ac mae'n dilyn y meini prawf a osodwyd ym mhob fersiwn o'r Fethodoleg Asesu Safle (gan hefyd gadw at bolisiâu cynllunio cenedlaethol ac egwyddorion creu lleoedd). Wrth ddiffinio ffiniau, roedd y broses yn cynnwys defnyddio ffotograffau manwl o'r awyr, mapiau electronig, a systemau gwybodaeth ddaearyddol perthnasol eraill (GIS). Roedd y ffynonellau hyn yn rhoi cynrychiolaeth weledol gyfredol a manwl gywir o'r tir, y strwythurau presennol, a phatrymau defnydd tir. Defnyddiwyd y ffotograffau o'r awyr diweddaraf sydd ar gael yn ogystal â'r mapiau cyfyngiadau diweddaraf gan gynnwys system GeoDiscover fewnol y Cyngor a Map Cyfyngiadau'r CDLI, ynghyd â ffynonellau eraill gan gynnwys dynodiadau amgylcheddol cenedlaethol a lleol a data llifogydd ar ffurf Mapiau Cyngor Datblygu (ac yna Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP)). Cafodd yr holl bwyntiau data hyn eu cyrchu a'u defnyddio'n electronig a lle bo hynny'n briodol, cawsant eu troshaenu ar haen GIS yr anheddiad. Yn ogystal â data electronig, roedd arbenigedd a gwybodaeth leol y swyddogion cynllunio yn chwarae rhan hanfodol. Lle'r oedd hynny'n briodol, cynhaliodd swyddogion ymweliadau safle, a oedd yn golygu bod modd gwirio ac asesu'r ardaloedd oedd dan ystyriaeth ar lawr gwlad. Roedd yr adolygiad hefyd yn defnyddio gwybodaeth y swyddogion wrth ddehongli a chymhwyso polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol. Roedd hyn yn cynnwys deall y fframweithiau polisi strategol a rôl a statws yr aneddiadau o fewn Haenau 1, 2 a 3. Wrth ymgymryd â'r ymarfer o ddiffinio'r terfynau datblygu, dechreuodd hyn gydag adolygiad o'r terfynau datblygu presennol a'u priodoldeb parhaus. Mae'n bwysig nodi bod yr adolygiad o derfynau datblygu wedi'i gynnal yn gyfan gwbl unol â'r fethodoleg sefydledig. Sicrhodd y fethodoleg hon fod dull cyson	

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	yn cael ei gymhwyso, gan arwain diffiniad ffiniau datblygu i reoli twf yn effeithiol, atal datblygiad amhriodol, a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dir. Trwy integreiddio ffynonellau electronig, arsylwadau penodol i safle, ac arbenigedd proffesiynol, gosododd y broses adolygu sylfaen gadarn ar gyfer diffinio terfynau datblygu sy'n cyd-fynd â pholisïau'r CDLI Diwygiedig, polisi ac amcanion cynllunio cenedlaethol, yn ogystal ag anghenion y gymuned.	
AP1/9	Diwygio Polisi PSD1 fel a ganlyn. PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd ac Egwyddorion Creu Lleoedd Dylai cynigion datblygu ddangos bod dyluniadau penodol i safle ac amcanion chynaliadwyedd egwyddorion creu lleoedd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Dylai datblygiadau gyflawni datrysiadau dylunio o ansawdd sy'n briodol i'r safle penodol, yr ardal leol a natur y datblygiad. Dylai cynigion ddangos y canlynol yn glir: - Bod y datblygiad yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol drwy ystyried y dirwedd; yr amgylchedd adeiledig; a nodweddion hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys: 1. cynllun y safle a chynllun dylunio'r dirwedd; 2. ffurf, graddfa, dimensiynau màs, deunyddiau a manylion yr holl elfennau adeiledig ac arwynebau. Sicrhau bod cynigion datblygu yn cadw cysylltiad â'r 'ymdeimlad o le' lleol ac yn ychwanegu ato'. - Datrysiadau dylunio o ansawdd uchel sy'n darparu:	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	1. ffurf adeiledig sy'n integreiddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy yn effeithiol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni a hyblygrwydd o ran defnydd. 2. defnydd effeithlon o arwynebedd y safle, gan wneud y mwyaf o gadw, amddiffyn ac integreiddio elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol presennol, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas. 3. cynllun safle effeithiol, diogel, a chynhwysol sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant ac amwynder preswylwyr, defnyddwyr, ac ymwelwyr. 4. cyfraniad cadarnhaol i amgylchfyd cyhoeddus effeithiol a deniadol trwy integreiddio ffurf adeiledig gyda gofod digonol wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer amwynderau preifat a chyhoeddus c. Na fydd y datblygiad yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol i amwynder defnyddiau tir cyfagos, eiddo, preswylwyr, neu'r gymuned; a bod unrhyw effeithiau niweidiol posibl wedi cael eu hosgoi, eu lleihau i'r eithaf, a'u lliniaru. d. Atebion dylunio tirweddau o ansawdd sy'n: 1. gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer; gwella ansawdd a maint elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol presennol, a chreu rhai newydd, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas. 2. gwella amwynder gweledol a chymeriad y dirwedd i sefydlu ymdeimlad clir ac eglur o le a chyfrannu at amgylchfyd cyhoeddus deniadol 3. lleihau, a lliniaru yn erbyn effeithiau andwyol posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.	

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	e. Atebion dylunio effeithiol sy'n ystyried amodau presennol y ddaear ac yn defnyddio topograffi presennol y safle i fynd i'r afael â sefydlogrwydd ti; lleihau gwaith cloddio a llenwi gymaint ag y bo modd; cyflawni Polisi PSD5 (Datblygu a'r Economi Gylchol) i'r graddau gorau posibl; a lleihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol. f. Bod y datblygiad yn cyflawni neu'n cyfrannu at y canlynol: 1. cysylltiadau diogel ac effeithlon â rhwydweithiau mynediad presennol gan gynnwys Teithio Llesol a'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus; 2. llwybrau mynediad priodol ac arwynebau sy'n hybu hygyrchedd effeithiol ar gyfer pawb a rhwyddineb symud i mewn i'r safle a thrwyddo; 3. darparu safonau prifordd priodol ar y safle gan gynnwys parcio a gwasanaethau. g. Bod y datblygiad yn cyflawni mesurau cynaliadwy a chydnerth ar gyfer trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr budr; sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â chynllun y safle ac yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddarparu gwerth ychwanegol trwy swyddogaethau sy'n cyflawni amcanion polisi ar gyfer y dirwedd, ecoleg a seilwaith gwyrdd a glas. h. Bod atebion dylunio yn cael eu cyflawni trwy gydol oes y datblygiad arfaethedig trwy gynigion cynnal a chadw a rheoli effeithiol i. Ei fod yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer rheoli a chael gwared ar rywogaethau ymledol yn briodol. Bydd newidiadau o ganlyniad o fewn y Cynllun sy'n deillio o newid teitl y polisi yn cael eu nodi fel rhan o'r newidiadau yn sgil materion sy'n codi.	

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
AP1/10	Ystyrir nad oes angen y gair 'gwastraff' yma. Cyfeirir at HS1 lle cytunodd y Cyngor i drafod y mater hwn yn HS6 (a gafodd ei ganslo yn ddiweddarach). Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 (paragraff 5.12.4) yn cyfeirio at 'gynllun rheoli deunyddiau naturiol'. Amcan Polisi PSD5, ac yn wir amcan cynllun rheoli deunydd naturiol, yw osgoi creu gwastraff yn y lle cyntaf – felly ni fydd y deunydd ar y safle yn cael ei ystyried yn wastraff ar y pwynt hwnnw. Yr unig adeg y bydd yn mynd yn 'wastraff' yw os na ellir ei aildddefnyddio yn effeithiol, a dyna yw amcan cynllun rheoli deunydd naturiol - sef dynodi sut y gellir atal y deunydd rhag mynd yn wastraff. DS mae hyn er gwaethaf y newidiadau i Bolisi PSD5 fel sy'n ofynnol yn y camau gweithredu i HS6 h.y. AP6/15 - Polisi PSD5	Cytunwyd. Nid oes angen unrhyw newid yn ddarostyngedig i'r newidiadau sy'n ofynnol yn unol ag AP6/15.
AP1/11	Diwygio Polisi PSD3 fel a ganlyn (gan ymgorffori AP0/1 (i)): PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Mae'n ofynnol i gynigion datblygu dBydd cynigion datblygu yn dangos atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol sy'n: a) Cadw, amddiffyn, ac integreiddio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, yr ansawdd, a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu; b) Gwireddu gwelliannau cyffredinol i werth, ansawdd, a chyflwr; ac ehangder, amrywiaeth, a chysylltedd y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynnigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	c) Integreiddio'n effeithiol a gwneud y mwyaf o gysylltedd ag asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol wrth ymyl ffiniau'r safle datblygu a chyda'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ehangach; d) Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fod yn amlswyddogaethol trwy integreiddio swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyflawni amcanion cyfunol sydd o fudd i Fioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, lechyd a Llesiant, Ymdeimlad o Le, a'r Economi; a lle na fydd hyn yn peryglu pwrpas y seilwaith gwyrdd a glas; a, e) Chynnwys cynigion rheoli a chynnal a chadw hirdymor i sicrhau bod atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol yn cael eu cyflawni ar gyfer oes y datblygiad arfaethedig; ac, f) Osgoi goleuo'r seilwaith gwyrdd a glas a ddarperir at ddibenion cadwraeth bywyd gwyllt. Bydd ceisiadau cynllunio yn gofyn am gyflwyno arolygon ac asesiadau sy'n briodol i safle a natur y datblygiad, er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas. Bydd yn ofynnol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd a Glas i ddangos sut mae atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi cael eu hystyried a'u cynnwys fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.	
AP1/12	Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol dros Bolisi PSD4 fel a ganlyn. Bydd rhifau'r paragraffau yn newid yn sgil newidiadau mewn mannau eraill yn y Cynllun.	Cytunir ar y newid.

Pwynt Gweithredu	Ymateb y Cyngor / Newidiadau a gynigir yn sgil Materion a Godwyd	Sylwadau'r Arolygwyr
	11.306 Dylai coed newydd a gaiff eu plannu fod o rywogaeth sy'n frodorol i'r safle, ac o aeddfedrwydd priodol. i fodlonrwydd y Cyngor. O ran y cyfeiriad yn y polisi at golled anochel, bydd y Cyngor yn disgwyl disgwylir i'r ymgeisydd wneud pob ymdrech resymol i gadw nodweddion presennol, ac o'r herwydd dylid ystyried eu cadw (lle bo'n briodol) yn rhan annatod o ddyluniad y safle datblygu arfaethedig o'r cychwyn cyntaf. Mae paragraff 6.4.42 o Bolisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12) yn darparu canllawiau ychwanegol.	

AP1/13	Diwygio Polisi SP2 fel a ganlyn: Polisi Strategol – SP 2: Adwerthu a Chanol Trefi Bydd cynigion am ddatblygiadau adwerthu ac at ddefnydd arall yng nghanol trefi yn cael eu hystyried yn unol â'r hierarchaeth adwerthu a ganlyn a'r darpariaethau isod: <table><tr><td>Is-ranbarthol – Canol Tref Lefel Uwch</td><td>Caerfyrddin</td></tr><tr><td>Canol Trefi Lefel Ganol</td><td>Llanelli</td></tr><tr><td>Canol Trefi Lefel Is</td><td>Rhydaman</td></tr><tr><td></td><td>Porth Tywyn</td></tr><tr><td></td><td>Llandeilo</td></tr><tr><td></td><td>Llanymddyfri</td></tr><tr><td></td><td>Castellnewydd Emlyn</td></tr><tr><td></td><td>Sanclêr</td></tr><tr><td></td><td>Hendy-gwyn ar Daf</td></tr></table> a) Caniateir cynigion ar gyfer adwerthu a defnyddiau canol tref priodol eraill o fewn ffin canol tref Caerfyrddin (gan gynnwys defnydd	Is-ranbarthol – Canol Tref Lefel Uwch	Caerfyrddin	Canol Trefi Lefel Ganol	Llanelli	Canol Trefi Lefel Is	Rhydaman		Porth Tywyn		Llandeilo		Llanymddyfri		Castellnewydd Emlyn		Sanclêr		Hendy-gwyn ar Daf	Cytunir ar y newid.
Is-ranbarthol – Canol Tref Lefel Uwch	Caerfyrddin																			
Canol Trefi Lefel Ganol	Llanelli																			
Canol Trefi Lefel Is	Rhydaman																			
	Porth Tywyn																			
	Llandeilo																			
	Llanymddyfri																			
	Castellnewydd Emlyn																			
	Sanclêr																			
	Hendy-gwyn ar Daf																			

hamdden, dinesig, diwylliannol, addysg, busnes, iechyd a phreswyl (ar loriau uchaf)) sy'n cefnogi twf Caerfyrddin fel canol tref adwerthu is-ranbarthol lle maent yn cynnal ac yn gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl Canol Tref Caerfyrddin. Ni ddylai cynigion:

- 1) danseilio swyddogaeth adwerthu canol y dref, neu gael effaith andwyol ar fywiogrwydd neu hyfywedd yr ardal; a
- 2) creu crynodiad o ffryntiau nad ydynt yn rhai adwerthu ar loriau gwaelod sy'n amharu ar gymeriad a swyddogaeth adwerthu'r ardal.

b) Bydd bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl ~~ein~~ y canolfannau adwerthu yn cael ei gynnal a'i wella ynghyd â'r ystod o ddefnyddiau presennol ynddynt, gan gynnwys marchnadoedd lleol. Cefnogir cynigion o fewn ffiniau canol y dref sy'n ehangu ystod y defnyddiau ac yn annog cyfleoedd siopa, gwasanaethau, gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau a chyflogaeth/busnes cyfleus a hygyrch.

~~c) Bydd cynigion ar gyfer siopau cyfleustra y tu allan i ffin canol tref ddiffiniedig yn destun:~~

- ~~1) Cyflwyno asesiad effaith i ddangos na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan adwerthu bresennol;~~
- ~~2) Tystiolaeth o fod wedi cymhwyso prawf dilyniannol wrth ddewis y safle;~~
- ~~3) Tystiolaeth o angen meintiol ac ansoddol am y datblygiad; a,~~
- ~~4) Tystiolaeth o hygyrchedd y safle i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy.~~

~~dc)~~ Bydd cynigion ar gyfer adwerthu a defnyddiau canol tref eraill o fewn ffin canol y dref yn cael eu cefnogi a fydd, lle bo hynny'n berthnasol:

- 1) Yn darparu cyfleoedd i'r sectorau adwerthu a masnachol annibynnol;
- 2) Yn cefnogi ~~a pheidio â thanseilio~~ parhad swyddogaeth canol trefi lefel uwch a lefel ganol fel canolfannau adwerthu;
- 3) Hyrwyddo ac arallgyfeirio addysg, hamdden, cyfleusterau diwylliannol, a'r economi gyda'r nos;
- 4) Darparu ar gyfer creu gofodau cyhoeddus o ansawdd a gwelliannau amgylcheddol gan gynnwys gwarchod a gwella cymeriad lleol unigryw yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol, ac ymrwymiad i ddylunio o ansawdd uchel;
- 5) Gwella lleoedd i gerddwyr, beicwyr a phobl pobl â chyflyrau iechyd neu namau, gan wella trafndiaeth gyhoeddus, hygyrchedd, mynediad i gyfleusterau cyhoeddus, mannau parcio i geir, arwyddion, a'r strydlun; a,
- 6) Gwarchod, gwella ac integreiddio â'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas.

d) Y tu allan i'r ffiniau canol tref uchod gellir caniatáu'r mathau canlynol o ddarpariaeth adwerthu a defnyddiau canol tref eraill yn unol â pholisi cenedlaethol:

- 1) Unedau warws adwerthu newydd nad ydynt ar gyfer bwyd (gan gynnwys canolfannau garddio, neuaddau arddangos ceir a chyfleusterau ategol), cyfleusterau hamdden priodol mewn parciau adwerthu dynodedig a defnyddiau canolfan fasnachu ar safleoedd cyflogaeth, ble maent yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth berthnasol. ~~a nodir isod:~~

i. ~~asesiad effaith yn dangos na fyddai'r cynnig yn niweidio canol trefi sefydledig;~~

- ~~ii. tystiolaeth o fod wedi mabwysiadu ymagwedd ddilyniannol sy'n dangos nad oes safleoedd addas a chynaliadwy ar gael mewn lleoliadau oddi mewn i ganol trefi diffiniedig neu'n union wrth eu hymyl;~~
- ~~iii. tystiolaeth o angen meintiol, ansoddol ac/neu angen arall perthnasol am y datblygiad;~~
- ~~iv. tystiolaeth o hygyrchedd y safle i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy.~~

2) Cynigion am gyfleusterau siopa cyfleustra lleol mewn ardaloedd gwledig a threfol o fewn y ffiniau datblygu os yw eu graddfa'n briodol i'r anheddiad hwnnw. Bydd cynigion am ddatblygiadau adwerthu gwledig yn cael eu hystyried yn unol â pholisi RTC2.

Diwygio paragraff 11.34 fel a ganlyn:

11.1 Mae gan Gaerfyrddin rôl is-ranbarthol hirsefydlog ac yn draddodiadol mae wedi bod â phresenoldeb cenedlaethol cryf ar ei stryd fawr ynghyd ag amrywiaeth o siopau lleol. Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi cael effaith amlwg ar natur ei darpariaeth adwerthu gyda nifer o gwmnïau cenedlaethol wedi tynnu'n ôl yn sgil yr heriau ariannol a'r ad-drefnu o fewn y sector adwerthu. O ganlyniad, er bod y ganolfan yn gwasanaethu amrywiaeth o anghenion ar gyfer y boblogaeth y tu hwnt i'w chymuned leol a bydd yn parhau i wneud hynny, rhaid i natur ei darpariaeth a'r ystod o ddefnyddiau o fewn y craidd adwerthu traddodiadol allu addasu wrth gadw'r sylfaen adwerthu draddodiadol honno. Mae'r Polisi felly yn caniatáu'r hyblygrwydd i gyflwyno defnyddiau heblaw adwerthu yng nghanol y dref. Wrth wneud hynny, mae maen prawf a yn ceisio sicrhau nad yw cymysgedd o ddefnyddiau yn andwyol i gymeriad a swyddogaeth adwerthu canol y dref. Ni ddylai cynigion arwain at ormod o unedau nad ydynt yn rhai adwerthu yng nghanol tref Caerfyrddin. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun gan ystyried ei gyd-destun a'i ddefnyddiau cyfagos. Mae'r Archwiliad Adwerthu o Ganol y Dref a gynhelir

ddwywaith y flwyddyn yn cofnodi'r defnyddiau a wneir o bob uned o fewn ffin canol y dref a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried ceisiadau. Bydd yr archwiliad yn golygu bod modd adnabod clystyrau o unedau nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion adwerthu a monitro tueddiadau eiddo gwag yn yr hirdymor. ~~Gall gormod o ffryntiau llawr gwaelod nad ydynt yn rhai adwerthu effeithio ar gymeriad adwerthu'r dref, ac efallai y bydd angen i gynigion a fyddai'n arwain at gollu uned adwerthu o fewn ardal ddarparu asesiad o'r effaith ar adwerthu sy'n dangos na fyddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar swyddogaeth adwerthu canol y dref.~~ Mae'r ganolfan yn parhau i fod yn un y gellir ei galw'n rhwydd yn ganolfan adwerthu lefel uwch ar sail y darpariaethau uchod.

Mewnosod paragraff newydd ar ôl 11.40 i esbonio'r gofynion ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra a chymharol newydd yn ardal y Cynllun a sut y bydd hyn yn cael ei fodloni:

Mae'r Astudiaeth Adwerthu yn dangos nad oes capasiti ar gyfer arwynebedd llawr adwerthu nwyddau cymharol ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y Cynllun, ac felly bydd angen i gynigion ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cymharol ychwanegol ddangos bod angen y ddarpariaeth ychwanegol. Yn yr un modd, mae'r Astudiaeth Adwerthu yn dangos bod yna ormod o arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra yn Sir Gaerfyrddin; fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ar draws y Sir ac mae'r Astudiaeth yn awgrymu bod yna rywfaint o gapasiti ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra ychwanegol ym Mharth 1 – Caerfyrddin a Pharth 3 – Rhydaman Cross Hands, fel y nodwyd yn yr Astudiaeth. Er gwaethaf hyn, bydd angen i gynigion ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra ddangos bod yna angen o safbwynt adwerthu am arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra ychwanegol yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 4 - Adwerthu a Datblygiadau Masnachol (2016).

Diwygio paragraff 11.43 fel a ganlyn i ddiffinio siopau cyfleustra lleol bach:

	Bydd darpariaeth y tu allan i'r canolfannau is-ranbarthol a chanolig, gan gynnwys siopau pentref lleol, yn gwneud cyfraniad pwysig at swyddogaeth adwerthu Sir Gaerfyrddin. Yn hyn o beth, mae'r canolfannau hynny sy'n bodloni angen am adwerthu nwyddau cyfleustra a mân anghenion siopa o ddydd i ddydd yn creu amrywiaeth sy'n gyson â'r amcanion o gynnal cymunedau a lleihau'r angen i deithio hyd yr eithaf. Gall yr aneddiadau hyn a'u cynnig adwerthu ategu swyddogaeth adwerthu sefydledig aneddiadau sydd yn uwch i fyny'r hierarchaeth a chyfrannu hefyd at weithredu Strategaeth y Cynllun. Gall fod yn ofynnol i gynigion adwerthu cyfleustra y tu allan i ffiniau canol y dref mewn canolfannau o'r fath ddangos tystiolaeth briodol o'r angen am ddarpariaeth adwerthu er mwyn sicrhau nad ydynt yn tanseilio'r gweithgarwch adwerthu yng nghanol y trefi. Dylai eu graddfa fod yn briodol ac yn gymesur â'r anheddiad cymharol, ond yn gyffredinol ni ddylent fod yn fwy na 200 metr sgwâr gros o arwynebedd llawr. Dylai cynigion sy'n mynd y tu hwnt i'r trothwy hwn ddangos bod angen yr arwynebedd llawr adwerthu a nodwyd.	
--	--	--

AP1/14	Diwygio Polisi RTC1 fel a ganlyn: RTC1: Diogelu siopau a chyfleusterau lleol Bydd cynigion a fyddai'n arwain at golli siop, gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol lleol (gan gynnwys Tafarndai) y tu allan i Ganol Trefi a nodwyd ym Mholisi Strategol SP2 dim ond yn cael eu caniatáu yn yr achosion a ganlyn: a) Pe na bai'r golled honno'n niweidio gwead cymdeithasol ac economaidd y gymuned; b) Os oes siop neu wasanaeth arall o ddefnydd cydnaws tebyg ar-gael i gwsmeriaid o fewn yr anheddiad neu o fewn pellter cerdded cyfleus. Os na cheir darpariaeth arall, bydd cynigion a fydd yn arwain at golli siop neu wasanaeth lleol dim ond yn cael eu caniatáu os yw pob ymdrech	Cytunir ar y newid.
---------------	---	---------------------

	resymol i farchnata'r gellir dangos bod y busnes i'w werthu neu i'w osod wedi cael ei farchnata am dros gyfnod parhaus o 12 mis ac wedi methu.	
AP1/15	Diwygio Polisi INF1 fel a ganlyn. INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio Pan fydd angen, gofynnir am rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau yr ymdrinnir yn llwyr ag effeithiau datblygiadau er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol. Bydd angen cyfraniadau i gyflawni neu gyllido gwelliannau i seilwaith, ecoleg, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau a chyfleusterau eraill i fynd i'r afael â gofynion neu effeithiau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd. Lle bo'n berthnasol, gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at waith cynnal a chadw darpariaeth o'r fath yn barhaus ac yn y dyfodol. Mewn achosion lle ceir anghydfod ynghylch materion sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol cyflawni'r gofynion, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu costau'r Cyngor am sicrhau arfarniad / asesiad annibynnol o hyfywedd ariannol. Diwygio paragraff 11.191 fel a ganlyn: 11.191 Bydd gofynion y rhwymedigaethau cynllunio yn ystyried hyfywedd ariannol datblygiad arfaethedig. Mewn achosion lle ceir anghydfod ynghylch yr effaith y mae'r gofynion yn ei chael ar y materion sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol y cynllun wrth gyflawni'r gofynion, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno Arfarniad Hyfywedd Datblygu o'r safle i ddeall ei hyfywedd ariannol. Bydd yr arfarniad yn cael ei ddadansoddi gan drydydd parti, gyda'r holl gostau yn cael eu talu gan yr ymgeisydd. Darperir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Rhwymedigaethau Cynllunio.	Cytunir ar y newid.
AP1/16	Diwygio Polisi SP8 fel a ganlyn.	Cytunir ar y newid.

Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

~~Mae'r Cynllun yn cefnogi~~ Bydd cynigion datblygu sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Sir yn cael eu cefnogi. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith. Bydd disgwyl i'r holl gynigion datblygu y mae WL1 yn berthnasol iddynt nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Diwygio Paragraff 11.173 fel a ganlyn.

~~Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi bod 19.0% o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg, tra bod y ffigur cyfatebol yn Sir Gaerfyrddin yn 43.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward etholiadol Glan y môr lle mae 19.2% yn siarad Cymraeg, ac ar ei uchaf yn Chwarter Bach lle mae 68.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.~~

Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2021 yn dynodi bod 17.8% o'r boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg, tra bod y ffigur cyfatebol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 39.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward Tyisha lle mae 18.9% yn siarad Cymraeg, ac ar ei uchaf ym Mhontyberem lle mae 60.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.

AP1/17 ac AP1/18	Diwygio Polisi WL1 a'r cyfiawnhad rhesymegol i egluro gofynion maen prawf b ym mharagraff arfaethedig 11.181 isod; cadw 'annisgwyl' mewn perthynas â hap-safleoedd preswyl a chyfeirio at y wybodaeth sydd ar gael am safleoedd disgwyliedig a restrir yn Atodiad 6 o'r Papur Pwnc ar Dwf a Dosbarthiad Gofodol Rhan 1 - Tai a bydd yn cael ei ailadrodd yn yr CCA; dileu'r term 'llif gwaith' ond darparu canllawiau ychwanegol ym mharagraff arfaethedig 11.182 isod; ac, ymgorffori gofynion PSD9 mewn perthynas ag arwyddion dwyieithog. WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu ledled Sir Gaerfyrddin ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Bydd yn ofynnol i'r cynigion datblygu canlynol gyflwyno Cynllun Gweithredu laith, a hwnnw'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg: a. Datblygiadau preswyl o 5 neu o anheddau a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn darparu arwain at ddatblygiad tai sy'n fwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir-ar gyfer yr anheddiad ym Mholisiau SP4 a HOM1 a-HOM3; neu b. Datblygiad preswyl o 5 neu fwy o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu neu hap-safleoedd nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai neu ffynonellau tystiolaeth lleol eraill sy'n berthnasol; neu, c. b. Datblygiadau adwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy ar arwynebedd safle sy'n fwy nag 1 hectar. Mae'n ofynnol i gynigion ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.	Cytunir ar y newid.
--	--	----------------------------

Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr ar hap-safleoedd mawr a fydd yn unigol a chyda'i gilydd yn fwy na'r ddarpariaeth flynyddol ar gyfer hap-safleoedd o fewn y Cynllun gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr ar hap=safleoedd gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â thafliwybr tai'r Cynllun (Atodiad 7) yn darparu cynllun cyflwyno'n raddol sy'n nodi'r graddfeydd amser ar gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.

Bydd cynigion ar gyfer hysbysebion (sy'n destun rheolaeth gynllunio) yn cael eu rheoli'n llym a bydd disgwyl iddynt ddiogelu, a gwella'r Gymraeg yn y Sir drwy ddarparu arwyddion dwyieithog. Disgwylir i ddatblygiadau a strydoedd newydd fod ag enwau Cymraeg.

11.178

Mae'r ddarpariaeth tai ddangosol y cyfeirir ati ym maen prawf (a) i'w gweld yn Atodiad X. Mae'r ffigurau a nodir yn y tabl cyflenwad tai wedi'u ffurfio o gydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dyraniadau ac ymrwymadau. Lle byddai cynigion datblygu yn arwain at fwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol yn y datblygiad cyffredinol a ganiateir o fewn anheddiad yn ystod oes y Cynllun, bydd yn ofynnol cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys hap-safleoedd, ac mae'r rheiny'n fras wedi cael eu hasesu drwy Asesiad Effaith ar y Gymraeg y Cynllun Datblygu Lleol, ond nid yw union leoliadau'r safleoedd unigol yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg nodi hefyd sut y mae'r datblygiad yn cynnig gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at grwpiau iaith Gymraeg y gymuned. Gallai hyn, ymysg eraill, gynnwys rhoi cymorth a chyllid tuag at sefydliadau a chyrrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, a chymorth a chyllid tuag at ddosbarthiadau Cymraeg. Nodir canllawiau pellach o fewn **Atodiad 4-o** Ganllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg sy'n

amlinellu'r materion y dylai'r Cynllun Gweithredu eu hystyried. Bydd Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn ofynnol er mwyn amlinellu effaith ddisgwyliedig y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg yn y Sir. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg⁶¹ yn rhoi cyfarwyddyd pellach ynghylch pryd y mae angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, gan egluro beth yw datblygiad ar raddfa fawr, yn ogystal â sut i lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Paragraff newydd ar ôl 11.178

Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygu tai ar raddfa fawr ar hap-safleoedd sy'n fwy gyda'i gilydd na'r ddarpariaeth flynyddol ar gyfer hap-safleoedd o fewn y Cynllun gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Y ddarpariaeth flynyddol ar gyfer hap-safleoedd sydd wedi'i phennu ar gyfer ardal y cynllun yw 87 o anheddau. Bydd y Cyngor yn monitro caniatadau cynllunio a cheisiadau newydd arfaethedig ar hap-safleoedd i nodi pryd bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ofynnol ac yn rhoi'r wybodaeth hon i ymgeiswyr. At ddibenion y polisi hwn, safleoedd preswyl ar raddfa fawr yw'r rhai sy'n cynnwys 5 neu fwy o anheddau.

Paragraff Newydd: Diffinnir safleoedd cyflogaeth ar raddfa fawr, at ddibenion y polisi hwn, fel cynigion lle mae'r arwynebedd llawr sydd i'w greu yn 1,000 metr sgwâr neu fwy, neu lle mae'r arwynebedd datblygu a weir ar y safle yn fwy nag 1 hectar (yn unol â pharagraff 3.2.3 o Nodyn Cyngor Technegol 20). Ceir canllawiau pellach mewn perthynas â'r angen am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg.

Lle bo'n briodol, gall y Cyngor ystyried ei bod yn angenrheidiol gofyn am ddarparu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar safleoedd dyranedig, ymrwymedig a hap-safleoedd. Mewn achosion o'r fath, bydd CCA y Gymraeg yn nodi cyngor pellach ar y wybodaeth sydd i'w darparu.

11.179 Er y gellir rhoi cymorth i brosiectau trwy gyfraniadau ariannol, gellir ei roi trwy ddulliau eraill hefyd. Bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi gydag amodau neu'n amodol ar gytundebau cyfreithiol i sicrhau bod y mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn y Cynllun Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd canllawiau pellach ar gynnwys Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

11.180 Caiff tafllwybr tai'r CDLI ei amlinellu yn Atodiad 7 y Cynllun. Mae effeithiau graddfa, lleoliad a chyfradd datblygu wedi cael eu hasesu yn unol â'r tafllwybr y cytunwyd arno. O ganlyniad nid yw cynigion ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn gyson â graddfeydd amser y tafllwybr yn cael eu hasesu'n llawn. Felly bydd angen i gynigion o'r fath gael eu hategu gan gynllun fesul cam sy'n nodi nifer yr anheddau a fydd yn cael eu cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amod i sierhau bod anheddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r cynllun fesul cam lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Gall ymgeiswyr hefyd gynnig lliniaru'r effeithiau disgwyledig trwy ddulliau heb law cyflawni'r datblygiad fesul cam; bydd rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar fesurau lliniaru yn cael eu hamlinellu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

11.181 Mae Strategaeth y Cynllun yn darparu ar gyfer twf organig ar raddfa fach o fewn y Pentrefi Gwledig ac mae polisïau HOM11.181 ac HOM3 yn adeiladu ar hyn gan ganiatáu datblygu ar raddfa briodol ac mewn lleoliadau priodol. Ystyrir bod datblygiad bob yn dipyn ar y raddfa hon yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dwf cynaliadwy'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig, a bod unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o gael eu hamsugno gan y gymuned. Efallai nad yw datblygiad nas rhagwelwyd ar raddfa sylweddol nas caniateir ym mholisïau'r Cynllun yn gydnaws â Strategaeth y Cynllun, ac felly mae ei effeithiau heb eu hasesu ac yn anhysbys. Os caiff cynigion o'r fath eu cyflwyno i gael eu hystyried, bydd angen cyflwyno asesiad llawn gyda hwy sy'n nodi eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg.

11.182 Mae'n ofynnol bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDLI yn asesu effeithiau tebygol y CDLI ar y Gymraeg. Gwneir hyn yn ailadroddol ar adegau allweddol trwy gydol y broses o gynhyrchu'r Cynllun. Caiff yr effeithiau disgwyledig tebygol eu cyflwyno yn yr adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael o fewn sail dystiolaeth y CDLI.

11.183 Mae'r CDLI yn darparu canllawiau pellach ynghylch darparu hysbysebion dwyieithog ym Mholisi PSD9—Hysbysebion. Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ac i ddiogelu cymeriad ieithyddol lleol Sir Gaerfyrddin, bydd y Cyngor yn rhoi anogaeth i farchnata datblygiadau tai a masnachol newydd yn ddwyieithog yn ogystal â rhoi anogaeth i roi enwau Cymraeg i strydoedd a datblygiadau. Caiff canllawiau ychwanegol ynglŷn â darparu enwau strydoedd Cymraeg eu darparu ym Mholisi Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Gaerfyrddin.

Paragraffau newydd ar ôl 11.179

Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn cefnogi a hybu darpariaeth arwyddion gwybodaeth, hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth, arddangosiadau ac arwyddion hysbysebu dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar gyfer atyniadau a chyfleusterau twristiaeth. Bydd datblygwyr preifat cyfleusterau twristiaeth a hamdden hefyd yn cael eu hannog i roi cyhoeddusrwydd i'w mentrau busnes trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd yn ofynnol i hysbysebion ddarparu brand neu enw'r cwmni yn ddwyieithog; fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r holl eiriau ategol neu ychwanegol a ddarperir ar arwyddion yn y parth cyhoeddus a gynigir mewn cais cynllunio gael eu darparu'n ddwyieithog.

Paragraff Newydd: Bydd arwyddion dwyieithog a chynigion hysbysebu sy'n ceisio cyfuno nifer o hysbysebion hanfodol o fewn un arwydd yn cael eu hannog. Ceir cyfarwyddyd pellach yn y CCA hysbysebu.

Tabl canlynol i'w fewnosod rhwng Dangosydd Monitro 26 a 27. O ganlyniad, bydd rhifau cyfeirnodau dangosyddion dilynol yn cael eu diwygio i gynnal trefn gyson a dilyniannol.

<u>Amcanion y CDLI a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig</u>	<u>Polisi</u>	<u>Cyfeirnod y Dangosydd</u>	<u>Dangosydd Monitro</u>	<u>Targed</u>	<u>Pwynt Sbarduno</u>	<u>Ffynhonnell</u>
<u>SO11 ISA11, ISA15</u>	<u>SP8 WL1</u>	<u>xx</u>	<u>Nifer yr anheddau a ganiateir bob blwyddyn ym mhob anheddiad o gymharu â'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ym Mholisiau SP4 a HOM1.</u>	<u>Ni chaniateir i unrhyw anheddiad fod yn fwy na'i ddarpariaeth tai ddangosol heb gyflwyno a chymeradwyo Cynllun Gweithredu Iaith yn unol â maen prawf (a) o Bolisi WL1.</u>	<u>Unrhyw achos lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl sy'n fwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol ar gyfer anheddiad yn fwy na'r ffigur a nodwyd heb Gynllun Gweithredu Iaith cymeradwy a lle nad yw ei hepgor wedi'i gyfiawnhau.</u>	<u>Cyngor Sir Caerfyrddin</u>

	Mae'r tabl cyflenwad tir tai sy'n ymwneud â pholisi WL1 i'w weld yn Atodiad 5 isod. A gwelliant canlyniadol i'r atodiadau Datganiad Ysgrifenedig. Nid yw aneddiadau Haen 4 wedi'u cynnwys o ystyried bod polisi HOM3 yn gwneud caniatâd ar gyfer datblygiadau 1-4 annedd o fewn aneddiadau haen 4 yn unig. Felly, ni fyddai maen prawf (a) o'r polisi yn berthnasol i gynigion am 5 neu ragor o anheddau mewn aneddiadau haen 4.	
AP1/19	Diwygio Polisi INF5 fel a ganlyn. INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgyloedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus Bydd cynigion ar gyfer darparu safleoedd o 5 neu fwy o anheddau mewn aneddiadau lle nad oes cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus yn cael eu cefnogi lle mae'n cael eu gwasanaethu gan un system breifat. Caniateir cynigion o'r fath lle nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol, defnyddiau cyfagos neu amwynder lleol a Bydd seilwaith o'r fath dim ond yn cael ei ganiatáu os os gellir dangos y bydd yna na fydd effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol sensitif i ffosfforws.	Cytunir ar y newid.
AP1/20	Cyfeirir at Atodiad 3 isod lle ceir nodyn briffio sy'n ystyried effaith gofynion Polisi Cynllunio Cymru 12, Pennod 6 ar gyflawni'r safleoedd tai a ddyrannwyd.	Cytunir ar y newid.
AP1/21	Diwygio maen prawf i) Polisi SP12 fel a ganlyn Polisi Strategol – SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy Maen prawf i) i) Bod yn hygyrch ac yn integredig gan alluogi hydreiddedd a rhwyddineb symud sy'n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr, marchogion a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n sicrhau rhwyddineb mynediad i bawb;	Cytunir ar y newid.

AP1/22	Diwygio Polisi INF4 INF4: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli - Gwaredu Dŵr Wyneb y Dalgylch Bydd cynigion sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli ac sy'n cael eu diffinio fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn ddarostyngedig i ofyniad ar gyfer gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfun fel y nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cilfach Tywyn. Er mwyn diogelu ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad mawr a fyddai'n draenio'n uniongyrchol i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli gael gwared ar swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfunol. Ychwanegwyd paragraffau newydd ar ôl paragraff 11.205 Yn rhan o roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau perthnasol, mae Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn ei gwneud hi'n ofynnol gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system gyfun fel y'i mynegir mewn litrau. Yna, caiff credydau o'r fath eu cofnodi ar y gofrestr gwaredu dŵr wyneb Mae cael gwared ar ddŵr wyneb yn debygol o olygu atebion pwrpasol, gan ddibynnu ar faint a lleoliad y datblygiad. Yn nhermau'r credyd litrau, efallai y bydd y ffigur gwelliant gwirioneddol yn ddibwys. Er gwaethaf hyn, ni ddylai fod unrhyw niwed o ran llifoedd dŵr, gyda modd mesur y credydau a gyflawnwyd. Bydd gofyniad i gyflwyno adroddiad draenio i awdurdod cynllunio lleol Sir Gaerfyrddin sy'n dangos y gellir sicrhau gwelliant a bod y chwiliad dilyniannol gofynnol wedi'i ddilyn.	Cytunir ar y newid.

	Mae Atodiad 1 o'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu gwybodaeth am gyfrifo llifoedd ac yn nodi enghreifftiau ar gyfer uned breswyl sy'n cynnwys ffactor gwelliant x2 Er nad yw cyflwyno'r adroddiad draenio yn ofyniad dilysu, cynghorir datblygwyr yn gryf y dylai ystyriaeth gynnar ac amserol fod yn ymhlyg yn y cynigion datblygu. Cynghorir yn gryf y dylid dechrau trafod mewn da bryd â rhanddeiliaid allweddol - yn enwedig Dŵr Cymru. Dylid nodi mai datblygiadau perthnasol fydd y rheiny a fydd yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio ac felly mae hyn yn rhoi digon o gyfle i ystyried y gofynion Y datblygiadau hynny sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad gwelliant yw'r rhai sy'n draenio i waith trin dŵr gwastraff Llanelli a ddiffinnir fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Cyfrifir swm mesuradwy y llif budr newydd arfaethedig a nodwyd ym Mholisi INF4 fel 0.013 litr yr eiliad ar gyfer 1 eiddo preswyl. Caiff rhagor o fanylion eu hystyried yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn.	
AP1/23	Atodwyd rhestr ddiwygiedig o Ganllawiau Cynllunio Atodol fel Atodiad 5.	Cytunir ar y newid.

Atodiad 1 Pwynt Gweithredu AP1/6

AP1/6 – Diwygio Polisi SG1 i esbonio'r defnydd arfaethedig a maint y datblygiad.

SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg

Cyf. Safle.	Lleoliad a Defnyddiau Arfaethedig
PrC1/MU1	Gorllewin Caerfyrddin, Caerfyrddin Cynigir cymysgedd o ddefnyddiau, yn cynnwys defnydd preswyl (darpariaeth ar gyfer 700 o dai newydd o fewn cyfnod y cynllun hwn), cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol (yn cynnwys ysgol gynradd) ac amwynder. Roedd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn ddangosydd cyflawnadwyedd allweddol. Mae'r ffordd hon bellach wedi'i chwblhau ac ar agor.
PrC1/MU2	Pibwr-lwyd, Caerfyrddin Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Gaerfyrddin. Mae'r defnydd yn cynnwys cyflogaeth, hamdden masnachol, addysg yn gysylltiedig â Choleg Sir Gâr a phreswyl (ceir darpariaeth ar gyfer 247 o dai newydd).
PrC2/MU1	Hen Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli Cymysgedd o ddefnyddiau yn canolbwyntio ar yr economi ymwelwyr, treftadaeth a hamdden, a seilwaith cysylltiedig a thirweddau ar draws y safle 3.4ha, gan gynnwys adnewyddu'r Adeilad Rhestredig Gradd 2 a gaiff ei adnabod fel y Tŷ Tun (750 metr sgwâr). Mae'r safle yn dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac yn rhan o gynnydd adfywio sy'n cynnwys defnyddiau llai agored i niwed. Mae'r safle yn agos at Barc Arfordirol y Mileniwm. Nid oes dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud.
PrC2/MU2	Porth Trostre, Llanelli

	Cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys datblygu siop fwyd Dosbarth A1 a Siop Goffi Gyrru Trwodd, gyda mynediad cysylltiedig, parcio ceir a gwaith tirweddu a ddatblygwyd ym mlynnyddoedd cynnar cyfnod y CDLI Diwygiedig. Mae darn bach o dir yn parhau i fod ar yr ochr orllewinol a fyddai'n cefnogi defnydd adwerthu ar raddfa fach o oddeutu 250m² o arwynebedd llawr gros. sy'n adlewyrchu ei leoliad amlwg a'i hanes cynllunio.
PrC2/MU3	Hen Adeilad yr YMCA, Stryd Stepney, Canol Tref Llanelli Cymysgedd o ddefnyddiau mewn lleoliad yng nghanol tref, gyda darpariaeth ar gyfer 8 uned breswyl Mae'r safle wedi'i gwblhau ac yn cynnwys gofod swyddfa / adwerthu ar y llawr gwaelod. Mae 8 uned breswyl wedi'u cwblhau ar loriau uchaf y datblygiad.
PrC3/MU1	Gwaith Brics Emlyn, Pen-y-groes Darpariaeth i adfywio safle a ddatblygwyd o'r blaen. Dangosydd allweddol o'r gallu i gyflawni yw'r Mae Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a gwblhawyd yn ddiweddar yn gorwedd ger ffin orllewinol y safle ac mae'n darparu cysylltiadau cyfleus â choridor trafnidiaeth yr A48 a'r M4 sy'n cael ei adeiladu. Ceir darpariaeth i gyflawni datblygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned ynghyd â 177 o dai newydd.
SeC4/MU1	Glannau Porth Tywyn Cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol, ynghyd â defnyddiau masnachol / twristiaeth cysylltiedig. Dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud. Mae'r dyraniad defnydd cymysg wedi'i rannu'n ddwy ardal ar wahân o dir. Mae'r elfen ogleddol o'r dyraniad yn cynnwys y potensial ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol o hyd at 2,000m² o arwynebedd llawr gros, ynghyd â defnyddiau masnachol / twristiaeth. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig ystyried polisiau'r Cynllun ynghyd â darpariaethau TAN4.

	Mae rhan ddeheuol y safle yn rhan o ardal Uwchgynllun Porth Tywyn (Safle 4). Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad hamdden masnachol sy'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau adwerthu, gwesty, tafarn/bwyty a phreswyl o hyd at 5,000m² o arwynebedd llawr gros. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth breswyl wedi'i gwneud o fewn Polisi HOM1 – Dyraniadau Tai.
SeC16/MU1	Beechwood, Llandeilo Mae'r safle'n cynnwys Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Landeilo. Mae'r defnyddiau'n cynnwys cymysgedd o unedau dechrau cyflogaeth a swyddfeydd (tua 3020 metr sgwâr), masnachol ac adwerthu priodol B1 (A1 ac A3 o hyd at 1700 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros). Mae'r safle yn rhan o ardal fwy sydd wedi'i chynnwys o fewn terfynau datblygu ond a nodwyd yn barth perygl llifogydd C2. Bydd angen i geisiadau fodloni'r holl ofynion o ran hyn.
SeC20/MU1	Parc Gwyliau Talacharn Mae'r safle'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth a hamdden ae sy'n yn gysylltiedig ag ailddatblygu Parc Gwyliau Talacharn, a gaiff ei adnabod bellach fel Dylan Coastal Resort. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal a ddyrannwyd bellach wedi'i chwblhau gydag ardal fechan yng ngogledd y safle eto i'w datblygu.
PrC1/MU3	Safle adfywio a Defnydd Cymysg Nant-y-caws Safle mewn man strategol a ddefnyddir eisoes i reoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. Mae'n cynnig cyfle yn y dyfodol i fanteisio ar ynni, a gweithgareddau cysylltiedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Bydd cyfuno cyfleoedd yn y dyfodol ar y safle yn cael ei nodi trwy ddatblygu uwchgynllun.

Atodiad 2

Atodiad Newydd – Safleoedd Defnydd Cymysg ac Adfywio

Pwynt Gweithredu AP1/6 - Ychwanegu atodlen yn yr atodiad sy'n darparu manylion am y safleoedd adfywio a defnydd cymysg, gofynion cyflwyno'n raddol, cyfyngiadau, gofynion seilwaith a rhwymedigaethau cynllunio. (Mae geiriad newydd hefyd wedi'i amlygu mewn melyn)

Cyf. Safle	Lleoliad a Defnyddiau Arfaethedig
PrC1/MU1	Gorllewin Caerfyrddin, Caerfyrddin Mae safle Gorllewin Caerfyrddin, a gafodd ei nodi fel safle strategol yn y CDLI a fabwysiadwyd, yn parhau i gael ei nodi fel safle defnydd cymysg ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys preswyllo, (gyda darpariaeth ar gyfer 700 o gartrefi newydd o fewn cyfnod y cynllun hwn), Ysgol Gynradd newydd, amwynderau/hamdden, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol. Mabwysiadwyd Briff Cynllunio a Datblygu ar gyfer y safle yn 2010, ac mae'r datblygiad yn digwydd yn unol â hynny. Mae ffordd feingefn bwysig wedi'i chwblhau ac mae datblygiad preswyl wedi dechrau ac yn parhau i gael ei adeiladu ar y safle. Y Gofyniad i Gyflwyno'n Raddol Gweler y taflwybr tai. Mae datblygiad preswyl wedi dechrau a disgwylir iddo gael ei gyflawni ym mhob blwyddyn o weddill cyfnod y cynllun. Disgwylir i'r elfennau amhreswyl gael eu cyflawni tua diwedd cyfnod y cynllun. Cyfyngiadau • Llifogydd – mae elfennau sy'n agored i lifogydd afonol wedi'u heithrio o'r ardaloedd sydd i'w datblygu. Efallai y bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Penodol i Safle. • Ceir dyddodion tywod a graean o dan y safle; fodd bynnag, mae'r adnodd yn y lleoliad hwn eisoes wedi'i sterileiddio i raddau helaeth gan ei fod o fewn 200m i ddatblygiad sensitif. • Mae rhan o'r safle gerllaw Ardal Gadwraeth.

	• Amgylchedd archeolegol a hanesyddol. • Bydd angen astudiaethau ecolegol a bioamrywiaeth i gefnogi ceisiadau cynllunio. Gofynion Seilwaith • Ysgol Gynradd newydd. Rhwymedigaethau Cynllunio • Tai Fforddiadwy. • Taliad cyfnewid tuag at fuddion cymunedol sy'n cynnwys cyfleusterau cymunedol ac ysgol gynradd, fel y nodwyd ym Mriff Cynllunio a Datblygu Gorllewin Caerfyrddin, a Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin. • Darparu lle chwarae lleol (LAP) / lle lleol â chyfarpar ar gyfer chwarae (LEAP).
PrC1/MU2	Pibwr-lwyd, Caerfyrddin Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Gaerfyrddin. Mae'r defnydd yn cynnwys cyflogaeth, hamdden masnachol, addysg yn gysylltiedig â Choleg Sir Gâr a phreswyl (ceir darpariaeth ar gyfer 247 o dai newydd). Y Gofyniad i Gyflwyno'n Raddol Gweler y taflwybr tai. Disgwylir i ddatblygiad preswyl gael ei gyflawni tua diwedd cyfnod y cynllun. Disgwylir i ddefnyddiau eraill hefyd gael eu cyflawni tua diwedd cyfnod y cynllun. Cyfyngiadau • Agos i'r A48 – ystyriaethau priffyrdd. • Tir amaethyddol Gradd 3a ar ran o'r safle. • Ceir dyddodion tywod a graean o dan y safle; fodd bynnag, mae'r adnodd yn y lleoliad hwn eisoes wedi'i sterileiddio i raddau helaeth gan ei fod o fewn 200m i ddatblygiad sensitif. Gofynion Seilwaith • Cysylltiad priffyrdd.

	- Efallai y bydd angen asesiad ansawdd aer. Rhwymedigaethau Cynllunio - Tai Fforddiadwy yn unol â Pholisi AHOM1 - Cyfraniad tuag at gyfleusterau addysg yn yr ardal - Darpariaeth mannau agored cyhoeddus - Efallai y bydd gofyniad i gyfrannu tuag at seilwaith Teithio Llesol
PrC2/MU1	Hen Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli Cymysgedd o ddefnyddiau yn canolbwyntio ar yr economi ymwelwyr, treftadaeth a hamdden a thirweddau cysylltiedig ar draws y safle 3.4ha, gan gynnwys adnewyddu'r Adeilad Rhestredig Gradd 2 a gaiff ei adnabod fel y Tŷ Tun (750metr sgwâr). Mae'r safle yn dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac yn rhan o gynnig adfywio sy'n cynnwys defnyddiau llai agored i niwed. Mae'r safle yn agos at Barc Arfordirol y Mileniwm. Nid oes dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud. Y Gofyniad i Gyflwyno'n Raddol: Ni nodwyd unrhyw ofyniad i gyflwyno'n raddol. Cyfyngiadau: - Posibilrwydd o dir halogedig o ystyried ei ddefnyddiau hanesyddol. - Dim ecoleg na chynefin arwyddocaol ar y safle. - Mae tua 25% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Afonydd (Parth 2). Mae tua 30% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Moroedd (Parth 2). Mae tua 15% yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (Parth 2 a 3). Bydd angen Asesiad manwl a chadarn o Ganlyniadau Llifogydd i ategu unrhyw gais gan ddangos os, a sut, mae modd bodloni'r meini prawf ar gyfer derbynioldeb a chan ddangos ymagwedd ddilyniannol tuag at lifogydd ar draws y safle, gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd. - Dymchwel, neu'r posibilrwydd o integreiddio'r adeiladau gwag ar y safle.

	Gofynion Seilwaith: • Mae'r safle yn union gerllaw prif ffordd y B4304 (Traeth Ffordd) • Dim materion yn ymwneud â chysylltiadau dŵr a charthffosiaeth. Rhwymedigaethau cynllunio. Ddim yn berthnasol oni bai bod angen gwelliannau i briffyrdd fel rhan o unrhyw gynllun.
PrC2/MU2	Porth Trostre, Llanelli Manylion: Cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys datblygu Siop Fwyd Dosbarth A1 a Siop Goffi Gyrru Trwodd, gyda mynediad cysylltiedig, maes parcio ceir a thirweddu a ddatblygwyd ym mlynedd cynnar cyfnod cynllun y CDLI Diwygiedig. Mae darn bach o dir ar ôl ar yr ochr orllewinol a fyddai'n cynnal defnydd adwerthu ar raddfa fach o oddeutu 250m² o arwynebedd llawr gros, gan adlewyrchu ei leoliad amlwg a'i hanes cynllunio. Y Gofyniad i Gyflwyno'n Raddol: Nid yw'r gofyniad i gyflwyno'n raddol wedi'i nodi. Cyfyngiadau: • Mae gwrychoedd a choed yn ffinio ag elfen orllewinol y safle a fyddai'n lleihau'r lle sydd ar ôl / arwynebedd safle'r dyraniad defnydd cymysg. • Bydd angen i gynigion adwerthu gydymffurfio â pholisïau adwerthu'r Cynllun a TAN4 Adwerthu a Datblygiadau Masnachol a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu'r dystiolaeth berthnasol i ddangos na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan adwerthu bresennol. Gall hyn gynnwys tystiolaeth mewn perthynas â'r angen meintiol ac ansoddol am ddarpariaeth adwerthu ychwanegol, cymhwyso'r prawf dilyniannol wrth ddewis safle ac effaith adwerthu'r cynnig. Gofynion Seilwaith:

	- Mae'r prif seilwaith ffordd i ran ddwyreiniol y safle wedi'i gwblhau i wasanaethu'r safle adwerthu A1 a'r Siop Goffi Gyrru Trwodd, gyda'r seilwaith ffyrdd i'r elfen orllewinol yn barod i wasanaethu datblygiad newydd. - Dim materion yn ymwneud â chysylltiadau dŵr a charthffosiaeth. Rhwymedigaethau cynllunio. Ddim yn berthnasol
PrC2/MU3	Hen Adeilad yr YMCA, Stryd Stepney, Canol Tref Llanelli Cymysgedd o ddefnyddiau mewn lleoliad yng nghanol tref, gyda darpariaeth ar gyfer 8 uned breswyl Mae'r safle wedi'i gwblhau ac mae'n cynnwys gofod swyddfeydd / adwerthu ar y llawr gwaelod. Mae 8 uned breswyl wedi'u cwblhau ar loriau uchaf y datblygiad.
PrC3/MU1	Gwaith Brics Emlyn, Pen-y-groes Darpariaeth i adfywio safle a ddatblygwyd o'r blaen. Mae Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands yn ddangosydd cyflawnadwyedd allweddol, ac yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Ceir darpariaeth i gyflawni datblygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned ynghyd â 177 o dai newydd. Safle a ddatblygwyd yn flaenorol a arferai gynnwys gwaith brics a gweithgarwch mwyngloddio glo ond sydd ar hyn o bryd yn wag. Mae'r safle i'w ddatblygu ar gyfer 177 o gartrefi newydd ac mae rhan lai o'r safle i'w defnyddio ar gyfer datblygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Cyflwyno'n Raddol Mae gan y safle ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer 70 o anheddau ar hyd rhan ogleddol y safle ar dir rhwng Heol Norton a changen Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands i Heol Norton. Y cam hwn o'r safle fydd y cyntaf i gael ei gyflawni yn ystod oes yr CDLI diwygiedig. Nid oes gan weddill y safle ganiatâd cynllunio a bydd yn cael ei gyflawni yn dilyn cam cyntaf y datblygiad yn rhan ogleddol y safle. Gweler taflwybr y CDLI diwygiedig am fanylion pellach.

	Cyfngiadau - Llygredd tir a sefydlogrwydd tir oherwydd gweithgareddau blaenorol ar y tir, gan gynnwys mwyngloddio. Argymhellir bod ymchwiliad ychwanegol yn cael ei gynnal i gefnogi ceisiadau cynllunio yn y dyfodol. - Mae'r safle o fewn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ac felly bydd angen cyfraniad tuag at y cynllun lliniaru strategol fel y'i nodwyd. - Mae'r safle yn ymgorffori cynefin brithwaith agored a gall fod yna botensial ar gyfer cynefin pathewod ar rannau o'r safle. Bydd angen gwaith tirlfesur pellach ar y cam cais cynllunio. - Ceir dyddodion tywodfaen o dan y safle; fodd bynnag, mae'r adnodd yn y lleoliad hwn eisoes wedi'i sterileiddio i raddau helaeth gan ei fod o fewn 200m i ddatblygiad sensitif. Gofynion Seilwaith - Mae Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands bellach wedi'i chwblhau ac mae hon yn darparu cysylltiadau priffyrdd da yn ogystal â mynediad i'r safle. Mae modd cyrraedd y safle hefyd o Heol Norton i'r gogledd o'r safle. - Mae cwrpas i'r safle hwyluso'r gwaith o gyflawni'r llwybr cyd-ddefnyddio o Cross Hands i Landybïe, a fydd yn darparu llwybr beicio wedi'i wahanu oddi wrth draffig cerbydau. Rhwymedigaethau Cynllunio - Tai Fforddiadwy yn unol â Pholisi AHOM1 - Cyfraniad tuag at y cynllun lliniaru strategol a amlinellir ym Mholisi NE4 Datblygu yng Nghaeau'r Mynydd Mawr Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr - Cyfraniad tuag at gyfleusterau addysg yn yr ardal - Efallai y bydd cyfraniad yn ofynnol gan y datblygiad i wneud iawn am golli cynefin brithwaith agored - Darpariaeth mannau agored cyhoeddus - Efallai y bydd gofyniad i gyfrannu tuag at seilwaith Teithio Llesol
SeC4/MU1	Glannau Porth Tywyn

~~Cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol, ynghyd â defnyddiau masnachol / twristiaeth cysylltiedig. Dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud.~~

Mae'r dyraniad defnydd cymysg wedi'i rannu'n ddwy ardal ar wahân o dir.

Mae'r elfen ogleddol o'r dyraniad yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o gymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol o hyd at 2,000m² o arwynebedd llawr gros, ynghyd â defnyddiau masnachol / sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

Mae rhan ddeheuol y safle yn rhan o ardal Uwchgynllun Porth Tywyn (Safle 4). Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad hamdden masnachol sy'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau adwerthu, gwesty, tafarn/bwyty a phreswyl o hyd at 5,000m² o arwynebedd llawr gros. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth breswyl wedi'i gwneud o fewn Polisi HOM1 – Dyraniadau Tai.

Cyflwyno'n Raddol:

Bydd gan yr elfen ogleddol y potensial i gynllun ddod at ei gilydd tua diwedd cyfnod y cynllun.

Mae gan elfen ddeheuol y safle defnydd cymysg ganiatâd cynllunio amlinellol, gyda'r cais ar gyfer cymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl i'w wneud i'r Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn 25 Tachwedd 2027. Ystyrir y bydd y datblygiad yn digwydd tua diwedd cyfnod y Cynllun.

Cyfngiadau

- Mae tua 60% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Afonydd (parth 3); tua 50% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Moroedd (parth 2 a 3); Mae tua 7% yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2). Bydd angen Asesiad manwl a chadarn o Ganlyniadau Llifogydd i ategu unrhyw gais gan ddangos os, a sut, mae modd bodloni'r meini prawf ar gyfer derbynioldeb a chan ddangos ymagwedd ddilyniannol tuag at lifogydd ar draws y safle, gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd.
- Dylid datblygiad gael ei gyflawni yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Arfarnu Ecolegol.

	• Y gofyniad i gyflwyno cynllun clirio, lliniaru a thrawsleoli ymlusgiaid ac amffibiaid fel rhan o unrhyw gais manwl. • Y gofyniad i gyflwyno nifer o asesiadau sy'n ymwneud â'r halogiad posibl ar y safle a'r gofyniad am fesurau adfer os oes angen. • Bydd angen i gynigion adwerthu gydymffurfio â pholisïau adwerthu'r Cynllun a TAN4 Adwerthu a Datblygiadau Masnachol a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu'r dystiolaeth berthnasol i ddangos na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan adwerthu bresennol. Gall hyn gynnwys tystiolaeth mewn perthynas â'r angen meintiol ac ansoddol am ddarpariaeth adwerthu ychwanegol, cymhwyso'r prawf dilyniannol wrth ddewis safle ac effaith adwerthu'r cynnig. Gofynion Seilwaith • Manylion llawn y system draenio dŵr wyneb a'r system draenio dŵr budr ar wahân i'w cyflwyno. • Mae'r safle yn union gerllaw'r ffordd osgoi • Y gofyniad am Gynllun Rheoli Adeiladu. Rhwymedigaethau Cynllunio Ddim yn berthnasol.
SeC16/MU1	Beechwood, Llandeilo Mae'r safle'n cynnwys Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Llandeilo. Mae'r defnyddiau'n cynnwys cymysgedd o unedau dechrau cyflogaeth a swyddfeydd (tua 3020 metr sgwâr), masnachol ac adwerthu priodol B1 (A1 ac A3 o hyd at 1700 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros). Mae'r safle yn rhan o ardal fwy sydd wedi'i chynnwys o fewn terfynau datblygu ond a nodwyd yn barth perygl llifogydd C2. Bydd angen i geisiadau fodloni'r holl ofynion o ran hyn. Cyflwyno'n Raddol

	Ddim yn berthnasol Cyfyngiadau • Llifogydd – er bod amlinelliad y dyraniad wedi'i lunio i eithrio unrhyw barthau perygl llifogydd TAN15, ac afonydd parth llifogydd CNC, a chysiau dŵr bach, mae'r parthau hyn yr effeithir arnynt yn ffinio â'r dyraniad a byddai angen rhoi ystyriaeth briodol iddynt mewn cynigion yn y dyfodol. • Ecoleg – mae coed aeddfed yn amgylchynu perimedr rhan o'r safle a byddai angen eu hystyried mewn cynigion yn y dyfodol o ran clustogfeydd gwreiddiau. • Ffosffadau - mae'r safle o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Tywi. • Os oes angen, fel rhan o unrhyw gais cynllunio dilynol, bydd angen i'r ymgeisydd / datblygwr fodloni'r gofynion i leihau lefelau ffosffad sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. • Bydd angen i gynigion adwerthu gydymffurfio â pholisïau adwerthu'r Cynllun a TAN4 Adwerthu a Datblygiadau Masnachol a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu'r dystiolaeth berthnasol i ddangos na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan adwerthu bresennol. Gall hyn gynnwys tystiolaeth mewn perthynas â'r angen meintiol ac ansoddol am ddarpariaeth adwerthu ychwanegol, cymhwyso'r prawf dilyniannol wrth ddewis safle ac effaith adwerthu'r cynnig. Gofynion Seilwaith Mae'r safle wedi'i leoli'n agos iawn at brif gefnffordd yr A40 sy'n cysylltu Gorllewin Cymru â Chanolbarth Lloegr. Mae'r safle yn elwa o gyfleustodau sydd ar gael yn hwylus ac sy'n gwasanaethu'r gweithrediadau cyflogaeth presennol ar yr ystâd ddiwydiannol sefydledig i'r dwyrain, lle ceir mynediad i'r safle hwn. Rhwymedigaethau Cynllunio Ddim yn berthnasol oni bai bod angen gwelliannau i briffyrdd fel rhan o unrhyw gynllun.
SeC20/MU1	Parc Gwyliau Talacharn Mae'r safle'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth a hamdden ac sy'n yn gysylltiedig ag ailddatblygu Parc Gwyliau Talacharn, a gaiff ei adnabod bellach fel Dylan Coastal Resort. Mae'r

	rhan fwyaf o'r ardal a ddyrannwyd bellach wedi'i chwblhau gydag ardal fechan yng ngogledd y safle eto i'w datblygu. . Cyflwyno'n Raddol Ddim yn berthnasol Cyfyngiadau Byddai unrhyw gyfyngiadau wedi cael eu hystyried a'u goresgyn fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r safle o dan ganiatâd cynllunio W/24265 a W/34546. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ddatblygu'r tir a ddyrannwyd sy'n weddill. Gofynion Seilwaith Byddai unrhyw ofynion seilwaith wedi cael eu hystyried fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r safle W/24265 a W/34546. Rhwymedigaethau Cynllunio Ddim yn berthnasol
PrC1/MU3	Safle Adfywio a Defnydd Cymysg Nant-y-caws Safle mewn man strategol a ddefnyddir eisoes i reoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. Mae'n cynnig cyfle yn y dyfodol i fanteisio ar ynni, a gweithgareddau cysylltiedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Bydd cyfuno cyfleoedd yn y dyfodol ar y safle yn cael ei nodi trwy ddatblygu uwchgynllun. Cyflwyno'n Raddol I'w ystyried fel rhan o uwchgynllun posibl ar gyfer y safle. Cyfyngiadau Llifogydd - er nad yw parthau llifogydd TAN15 y Mapiau Cyngor Datblygu (DAMs) yn effeithio arno, ceir parthau llifogydd CNC - cyrsiau dŵr bach 2 a 3 ar rannau o'r safle. Trafnidiaeth – angen gwelliannau posibl i briffyrdd/mynediad. Mawn – ceir ychydig iawn o fawn ar ran ymylol y safle, ni ddylai rwystro cynigion yn y dyfodol.

	Gofynion Seilwaith Ceir posibilrwydd o ymgymryd â seilwaith ffyrdd newydd (gwelliannau mynediad). Mae'r prif gyfleustodau eisoes yn eu lle gan wasanaethu'r gweithrediadau presennol ar y safle. Rhwymedigaethau Cynllunio Ddim yn berthnasol oni bai bod angen gwelliannau i briffyrdd fel rhan o unrhyw gynllun.
--	--

Atodiad 3 – Nodyn briffio sy'n ystyried effaith gofynion PCC 12, Pennod 6 ar cyflwyno'r safleoedd tai a ddyrannwyd.

Mae'r nodyn canlynol yn crynhoi goblygiadau perthnasol Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 ar y dyraniadau safleoedd o fewn y CDLI Diwygiedig ac fel sy'n ofynnol drwy AP1/20. Mae Pennod 6 yn cyflwyno'r 'dull cam-ddoeth' y mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ei ddilyn i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Yn y bôn, mae'r dull cam yn nodi dull 6 cam o asesu effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau, y mae angen eu hystyried gan ddatblygwyr wrth baratoi ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau. O ran awdurdodau cynllunio, gallant sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei wneud ym mhob cam o'r dull cam trwy atodi amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau eraill i ganiatâd cynllunio.

Yn ogystal â'r defnydd o'r dull cam cam yn y cam cais cynllunio, mae pennod 6 PPW hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n nodi, pan fydd cynlluniau i'w hadolygu, yna. Dylid ystyried dyraniadau o'r newydd yn erbyn y polisi cam ac yng ngoleuni eu cyflwr bioamrywiaeth presennol a'r rôl y gallant ei chwarae wrth wella gwytnwch ecosystemau. Rhaid pwysleisio, ar adeg cyhoeddi PCC Argraffiad 12 (Chwefror 2024), bod CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin ar gam datblygedig o baratoi – ymgynghorwyd eisoes â'r ail Gynllun Adnau a roedd sylwadau wedi'u hystyried cyn cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'w archwilio. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod y materion bioamrywiaeth mewn perthynas â'r holl ddyraniadau eisoes wedi'i ystyried fel rhan o baratoi'r cynllun, ac roedd proformas safle manwl wedi'u cynhyrchu.

Er gwaethaf ystyried bioamrywiaeth a materion ecolegol wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig cyn cyhoeddi PPW Ed 12, mae'r gwaith ychwanegol canlynol wedi'i gynnal fel asesiad strategol lefel uchel o'r effeithiau posibl sy'n deillio o Bennod 6 ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLI).

Mae'r asesiad yn eithrio'r safleoedd hynny sydd wedi'u dosbarthu fel ymrwymadau. Cynhaliwyd yr asesiad i gefnogi'r broses archwilio mewn perthynas â'r Cynllun ac yn benodol o ganlyniad i'r Pwynt Gweithredu AP1/20. Wrth geisio nodi goblygiadau posibl ar safleoedd sy'n deillio o ddarpariaethau Pennod 6, nid yw'r asesiad hwn wedi'i fwriadu i ragfarnu'r potensial ar gyfer arolygon safle, lle bo angen y rhain, na'r potensial i'r safleoedd a ddyrannwyd gael eu hystyried drwy'r dull cam cam fel rhan o ystyried cais cynllunio.

Yn gyffredinol, cyfeiriir at ystyried safleoedd fel rhan o geisiadau cynllunio lle mae'r amodau safle ac ati yn berthnasol. Bydd disgwyl i gynigion mewn perthynas â'r safleoedd hyn hefyd sicrhau eu bod yn ystyried nodweddion y safle a'r rhai sy'n effeithio ar ffiniau safleoedd gan gynnwys gwrychoedd, coed a choetiroedd yn ogystal â nodweddion perthnasol o fewn neu sy'n croesi'r safle. Er bod disgwyl i'r rhain gael eu lletya yn bennaf fel rhan o gynllun y safle o fewn y niferoedd tai dangosol cyfredol, efallai y bydd achosion lle efallai y bydd angen newidiadau mewn dwysedd ac arwynebedd datblygadwy. Bydd materion o'r fath yn cael eu hystyried orau ar lefel cais lle mae gwybodaeth lawn am gyflwr y safle a'r lliniaru sydd ar gael ar y safle ac oddi ar y safle yn hysbys.

Mae'r asesiad yn cynnwys nodyn o'r nodweddion posibl a allai fod yn bresennol ar y safle neu a allai effeithio arno. Mae hefyd yn cynnwys sgôr RAG fel dangosydd o gyfyngiadau posibl.

Coch- Risg Uchel. Mae potensial ar gyfer cyfyngiadau nodedig, a bydd yn rhaid ystyried y rhain a'u cyd-fynd â'r lefel angenrheidiol o waith arolygu yn y cam ymgeisio a'u cymryd trwy'r broses drwyadl o'r dull cam cam.

Ambr - Effaith risg ganolig lle efallai y bydd angen dilyn y dull cam a neu efallai y bydd arolygon a chadw nodweddion yn berthnasol. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu hystyried yn dderbyniol yn gyffredinol er eu bod yn arddangos potensial nodweddion. O ystyried lefel uchel yr asesiad hwn, byddai angen ystyried yn briodol y safleoedd hynny lle gall nodweddion o'r fath fod yn bresennol trwy ystyriaeth fanylach fel uchod, gan gynnwys yn y cam ymgeisio.

Gwyrdd – Mae safleoedd o'r fath yn ymwneud ag ardaloedd risg isel ac nid ydynt yn nodi unrhyw faterion nodedig er y gall ystyriaethau ar y safle fod yn berthnasol. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw rwystrau ecolegol sylfaenol hysbys sy'n effeithio ar eu datblygiad.

	Cyfyngiadau nodedig. Bydd angen i'r safle ystyried dull fesul cam.
	Yn gyffredinol, ystyrir bod y safleoedd hyn yn dderbyniol er eu bod yn arddangos nodweddion posibl sydd o ddiddordeb.
	Yn debygol o fod yn iawn

Clwstwr / Haen	Anheddiad	Safle	Cyfeirnod Map y CDLI Diwygiedig	Cyfanswm Capasiti'r Safle 2018-2033	Nodweddion Posibl (yn seiliedig ar ddelweddau lloeren a haenau GIS)	Ystyriaethau posibl
Haen 1	Caerfyrddin	Tir oddi ar Barc y Delyn	PrC1/h4	17	Nifer o goed, coetir datblygol yng ngogledd y safle, coedlinau/gwrychoedd aeddfed, ychydig o laswelltir i'r de-ddwyrain	Arolwg glaswelltir - sefydlu os nad yw'n gyforiog o rywogaethau/adran 7. Ystyried Dull Fesul Cam
		I'r dwyrain o Lôn Devereaux	PrC1/h5	10	Gwrychoedd a choed aeddfed mewn gwrychoedd	Cadw gwrychoedd/coed gyda chlustogfeydd
		Heol Llansteffan	PrC1/h8	50	Coetir i'r de, yn agos iawn at Ardal Cadwraeth Arbennig Tywi	Clustogfa coetir a chynllun goleuo
		Brynhyfryd	PrC1/h10	20	Coed ar ffiniau, gwrych wedi'i ffustio'n drwm	Diogelu coed
		Heol Castell Pigyn, Abergwili	PrC1/h12	35	Coed ar ffiniau, gwrych wedi'i ffustio'n drwm	Diogelu coed
		Gorllewin Caerfyrddin	PrC1/MU1	345	Mae'r rhan fwyaf o'r safle yn debygol o fod yn laswelltir wedi'i wella heb lawer o rywogaethau, ychydig o wrychoedd, y rhan fwyaf o ansawdd gwael. Ac eithrio Nant Tawelan a'r coetir	Coetiroedd a cynefin torlannol. Rhan o ddatblygiad ehangach wedi'i gynllunio - nodweddion a ystyrir fel rhan o uwchgynllun

					cyfagos, sydd â dyfrgwn o bosibl.	
		Pibwr-lwyd	PrC1/MU2	247	Glaswelltir wedi'i wella'n helaeth yn bennaf, gwrychoedd o ansawdd amrywiol, rhai darnau coetir i'r gogledd ymhlith adeiladau, ambell i goeden hirgyff. Gall un cae bach i'r de fod â glaswelltir o werth uchel a phrysgwydd o werth ecolegol.	Dylid cynllunio'r safle er mwyn osgoi coetiroedd, coed o werth uchel a gwrychoedd. Efallai y bydd angen asesu elfennau o'r safle. Ystyried Dull Fesul Cam. Cynigion yn rhan o ddull wedi'i gynllunio - uwchgynllunio.
Haen 2	Pont-iets / Y Meinciau / Pont-henri	Cae Canfas, Heol Llanelli	SeC1/h4	8	Glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, cwpl o goed braf i'r gorllewin o'r safle	Cadw a gwarchod coed
		Tir oddi ar Heol Glyndwr	SeC1/h7	9	Glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, coed braf ar y ffin	Cadw a gwarchod coed
	Glanyfferi	Tir y tu ôl i Barc y Ffynnon	Sec2/h2	12	Rhedyn, prysgwydd, gwrychoedd, coetir sy'n aildyfu. Wedi'i gysylltu'n dda iawn â choetir aeddfed a hynafol	Efallai y bydd angen asesiad neu arolwg o nodwedd neu nodweddion ar y safle. Ystyried Dull Fesul Cam
Haen 3	Cynwyl Elfed	Gerllaw Fron Heulog	SuV1/h1	4	Glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, gwrychoedd o ansawdd amrywiol	Cadw gwrychoedd. Budd net i fioamrywiaeth
		Tir ger Lleine	SuV1/h2	13	Glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, gwrychoedd o ansawdd amrywiol	Cadw neu ailblannu gwrychoedd.

	Bronwydd	Tir ar fferm Troed Rhiw	SuV4/h1	6	Glaswelltir wedi'i wella'n bennaf, gwrych ar ochr y ffordd	Lleihau'r gwrychoedd a gollir
	Peniel	Aberdeuddwr/Pantfyfedwen	SuV10/h2	38	Glaswelltir wedi'i wella/ei led-wella gyda rhai mannau gwlyb/brwyn. Gwrychoedd ar y ffin gyda rhai coed aeddfed/lled-aeddfed	Yn dibynnu ar arolwg. Ystyried Dull Fesul Cam
	Alltwalis	Tir yn Ysgol Alltwalis	SuV11/h1	12	Glaswelltir wedi'i wella/ei led-wella gyda gwrychoedd aeddfed ar y ffin/coedlinau a choetir.	Cadw gwrychoedd/coed ffin a choetir. Asesiad glaswelltir posibl
	Llanpumsaint	Ger Gwyn Villa	SuV12/h1	20	Glaswelltir wedi'i led-wella, o bosibl rhywfaint o laswellt y gweunydd a phorfa frwyn, yn enwedig yng ngogledd y safle. Coed a gwrychoedd ffin	Cadw gwrychoedd/coed ffin a choetir. Asesiad glaswelltir posibl. Ystyried dull fesul cam.
		Llandre	SuV12/h2	4	Cliriwyd rhwng 2017 a 2020. Glaswelltir wedi'i wella/ei led-wella yn flaenorol. Gwrych i'r de.	Cadw gwrychoedd.
	Rhydargaeau	Fferm Cefn	SuV14/h1	17	Safle wedi'i glirio, gwrych a derwen wedi mynd	Gweler yr ap cynllunio. PL/05822: https://planning-carmarthenshire.msapproxy.net/PublicAccess_LIVE/SearchResult/RunThirdPartySearch?FileSystemId=PS&FOLDER1_REF=PL/05822#
	Capel Dewi	Heol Llwynddewi	SuV16/h1	2	Prysgwydd yn aildyfu ar ôl clirio'r safle. Glaswelltir ydoedd gynt.	Dim sylwadau mewn perthynas â Phennod 6.

	Nantgaredig	Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf	SuV17/h1	35	Glaswelltir wedi'i wella'n bennaf, gwrych, coeden aeddfed ar y ffin, ardal ffosfad Afon Tywi	Dim sylwadau mewn perthynas â Phennod 6.
--	--------------------	---------------------------------------	----------	----	--	--

	Llanddarog	Tir ger Haulfan a'r tu ôl i Haulfan	SuV19/h2	10	Cae glaswelltir wedi'i wella, gwrychoedd, ardal o ardd i'r gogledd-ddwyrain. Gall y glaswelltir fod o arwyddocâd.	Lleihau difrod i'r gwrychoedd.
--	-------------------	-------------------------------------	----------	----	---	--------------------------------

	Porth-y-rhyd	Tir ger Fferm Llwynhenri	SuV20/h1	6	Glaswelltir wedi'i wella/ei led-wella, gwrychoedd ffin o ansawdd amrywiol	Gwarchod gwrychoedd. Arolwg glaswelltir. Posibilrwydd o fudd net i fioamrywiaeth.
--	---------------------	--------------------------	----------	---	---	---

Cyfanswm y clwstwr	920
---------------------------	------------

Haen 1	Llanelli	Beech Grove, y Pwll	PrC2/h1	10	Glaswelltir wedi'i wella, coed ffin a choetir	Clustogfeydd ar gyfer coetiroedd a choed.
		Tir ger The Dell, Ffwrnes	PrC2/h10	13	Cymysgedd o goetir, cyrsiau dŵr, coetir wedi'i glirio, rhywfaint o goetir gyda Gorchmynion Cadw Coed. Mae Cam 1 yn dangos prysgwydd parhaus trwchus. Gyferbyn ceir Coetir Lled-naturiol Hynafol a Choetir Llydanddail Lled-naturiol. Hen chwarel ar fap 1876 sydd wedi mynd yn goediog beth amser yn ôl, gan ddechrau ffurfio coetir ar fap 1914. Effeithiau tebygol ar gynefinoedd gwarchodedig a bioamrywiaeth rhywogaethau gwarchodedig.	Byddai pa mor dderbyniol ydyw yn dibynnu ar y dull fesul cam. Sylwer bod cynllun y safle wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cyfyngiadau'r safle a darpariaethau pennod 6. Gweler Atodiad 3a sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r safle.

		Ynys Las, Llwynhendy	PrC2/h16	33	Llawr caled, prysgwydd gwasgaredig, hen laswelltir amwynder wedi gordyfu, coed ffin	Dim sylwadau mewn perthynas â Phennod 6.
		Harddfan	PrC2/h20	6	Glaswelltir wedi'i wella gyda choedlin aeddfed	Diogelu coed
		Porth Dwyrain Dafen	PrC2/h23	150	Glaswelltir wedi'i wella, coetir, coedlinau i'r dwyrain, gwrychoedd gwael i'r gorllewin a'r tu mewn i'r safle	Coetiroedd a gwarchod coed
		Pentre Awel	PrC2/SS1	240	Llyn, prysgwydd, tir llwyd, ymlusgiaid, clymog, glaswelltir wedi'i led-wella	Adeiladu'n digwydd ar ran o'r safle gyda cheisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno.
Haen 2	Cydweli	Tir oddi ar Stryd y Prior	SeC3/h2	20	Glaswelltir wedi'i led-wella, gwrychoedd, coetir i'r gogledd	Arolwg glaswelltir. Clustogfeydd coetir a gwrychoedd
		Llys Felin	SeC3/h3	15	Tai eisoes wedi'u hadeiladu ar ran o'r safle, safle adeiladu, glaswelltir wedi'i led-wella/planhigion cynefinol	Safle'n cael ei adeiladu
	Yr Hendy	Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt	SeC6/h2	12	Mae rhannau o'r safle eisoes wedi'u datblygu, coed ffin, glaswelltir wedi'i led-wella, rhywfaint o'r safle ehangach wedi'i glirio y tu hwnt i'r caniatâd presennol	Clustogfeydd ar gyfer coed ffin. Arolwg glaswelltir.
	Llangennech	Golwg yr Afon	SeC7/h3	50	Coetir hynafol wedi'i adfer, llawer o goed sydd â Gorchymyn Cadw Coed. Mae'r hanner uchaf yn goetir hynafol wedi'i adfer. Hanner y safle yn troi'n dir prysgwydd yn 2009 a bellach yn goetir. Mae mapiau hanesyddol hefyd yn dangos coetir yma.	Byddai pa mor dderbyniol ydyw yn dibynnu ar y dull fesul cam. Sylwer y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu mewn ymateb i'r Pwyntiau Gweithredu a godwyd yn Sesiwn Gwrandawriad 8.

					Gorchmynion Cadw Coed yr holl ffordd ar hyd ffin ddwyreiniol a deheuol yr hanner deheuol. Cysylltedd da â gogledd a de'r safle. Dyfrgwn a phathewod	
		Gyferbyn â Pharc Morlais	SeC7/h4	32	Glaswelltir wedi'i led-wella, gwrychoedd braf gyda choed hirgyff	Arolygon a chynllun Budd Net i Fioamrywiaeth posibl
		Maesydderwen	SeC7/h5	5	Triongl bach wedi'i ddatgysylltu i'r de - glaswelltir wedi'i wella, rhan ogleddol - coetir, coetir sy'n aildyfu, prysgwydd	Osgoi coetir a choed

Haen 3	Mynyddygarreg	Tir ger Tŷ Newydd, Heol y Meinciau	SuV22/h2	8	Glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin	Arolwg safle posibl. Clustogfeydd coed a chadw gwrychoedd.
--------	----------------------	------------------------------------	----------	---	--	--

	Pump-hewl / Horeb	Ger Little Croft	SuV23/h2	25	Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella, glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn, gwrychoedd a choedlinau/grwpiau o goed	Cadw gwrychoedd a choed ffin (gan gynnwys clustogfeydd). Asesiad glaswelltir posibl - osgoi unrhyw gynefin brithwaith agored adran 7
--	--------------------------	------------------	----------	----	---	--

Cyfanswm y clwstwr	619
---------------------------	------------

Haen 1	Rhydaman (gan gynnwys y Betws a Phen-y-banc)	Tir y tu ôl i 16-20 a 24-30 Heol y Betws	PrC3/h1	9	Glaswelltir niwtral, tir moel, gwrychoedd a choed aeddfed.	Coed ffin. Arolwg glaswelltir.
		Tir sy'n ffinio â Maes Ifan,	PrC3/h6	18	Pwll gwanhau, glaswelltir, coetir ar hyd ffin y gogledd a'r dwyrain	Clustogfa ar gyfer coetir. Angen arolwg glaswelltir. Posiblwydd o beth Budd Net i Fioamrywiaeth.

		Ffordd Maescwarrau				
		Tir ar Fferm Tirychen	PrC3/h4	150	Coetir llydanddail lled-naturiol, prysgwydd a glaswelltir wedi'i led-wella. Ffin o goed a gwrychoedd. Gerllaw coetir hynafol ac yn darparu cysylltedd da.	Byddai pa mor dderbyniol ydyw yn dibynnu ar y dull fesul cam. Angen arolygon ychwanegol. Sylwer bod cynllun safle diwygiedig wedi'i baratoi i adlewyrchu cyfyngiadau'r safle. Mae hyn yn destun pwynt gweithredu ar wahân o dan Sesiwn Gwrandawriad 9.
	Cefneithin	Tir oddi ar Heol y Parc	PrC3/h8	18	Glaswelltir corsiog yn wreiddiol, wedi'i glirio dro ar ôl tro dros 20 mlynedd. Ffin o goed aeddfed a gwrychoedd.	Dim sylwadau mewn perthynas â Phennod 6.
	Dre-fach (Tymbl)	Nantdydderwen	PrC3/h14	33	Coetir a glaswelltir prysgog,	Yn dibynnu ar arolwg.
		Tir oddi ar Heol Caegwyn	PrC3/h15	5	Glaswelltir wedi'i wella, gwrych	Cadw neu drawsblannu gwrychoedd. Cyfleoedd am Fudd Net i Fioamrywiaeth
	Gors-las	Tir yn ffinio â Brynlluan	PrC3/h18	29	Glaswelltir, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin ddwyreiniol a deheuol	Yn dibynnu ar arolwg. Gwrychoedd a choed aeddfed wedi'u cadw gyda chlustogfeydd digonol.
	Llandybïe	Tir i'r gogledd o Faes Piode	PrC3/h20	45	Glaswelltir, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin	Cadw gwrychoedd a choed aeddfed gyda chlustogfeydd digonol. Cyfleoedd am Fudd Net i Fioamrywiaeth.
	Pen-y-groes	Gwaith Brics Emlyn	PrC3/MU1	177	Sborion, tir moel, cynefin brithwaith agored adran 7, strwythurau, prysgwydd.	Mae rhan ogledd-orllewinol y safle eisoes yn cael ei datblygu. Osgoi pob cynefin brithwaith agored adran 7.

	Saron	Tir oddi ar Barc-y-Mynydd	PrC3/h26	15	Glaswelltir prysgog, coetir a choedlinau	Yn dibynnu ar arolwg. Cadw coetir a choed aeddfed gyda chlustogfeydd digonol.
		Tir oddi ar Heol Nant-y-Ci	PrC3/h27	18	Glaswelltir corsiog gynt, bellach yn goetir ifanc	Yn dibynnu ar arolwg.
	Y Tymbl	Tir ar safle Ffatri rhwng 22 a 28 Heol Bethesda	PrC3/h28	30	Prysgwydd, tir moel, coedlinau, grŵp o goed hynafol	Ystyried ac osgoi coedlin. Grŵp o goed hynafol yn dyddio cyn 1876 yn y gornel dde-orllewinol.
Haen 2	Brynaman	Heol y Gelynnen	SeC9/h2	8	Prysgwydd a choed	Yn dibynnu ar arolwg.
Haen 2	Pontyberem	Tir oddi ar Heol Llan-non	SeC11/h1	15	Glaswelltir wedi'i wella, glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn, coed aeddfed a gwrych.	Osgoi unrhyw gynefinoedd adran 7. Gwarchod coedlinau a gwrych (gan gynnwys clustogfeydd).
Haen 3	Llanedi	Y tu ôl i 16 Y Garreg Lwyd	SuV26/h1	11	Glaswelltir niwtral wedi'i ledwella, coed aeddfed a ffiniau gwrychoedd	Cadw gwrychoedd a choed aeddfed. Cyfleoedd am Fudd Net i Fioamrywiaeth
	Carmel	Tir ger Tŷ Newydd	SuV27/h1	5	Glaswelltir, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin	Yn dibynnu ar arolwg. Cadw gwrychoedd a choed aeddfed.
	Ystradowen	Tir oddi ar Bant y Brwyn	SuV30/h1	5	Glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwyn	Yn dibynnu ar arolwg.
Cyfanswm y clwstwr			591			
Haen 2	Castellnewydd Emlyn	Trem y Ddôl	SeC12/h1	17	Glaswelltir wedi'i wella, gwrych. Perllan â	Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych.

					blaenoriaeth CNC ger y ffin ogleddol.	
		Tir y tu ôl i Ddolcoed	SeC12/h3	20	Safle Coetir Hynafol ar y ffin ddeheuol, glaswelltir wedi'i wella, coed ar y safle.	Cadw coed (gan gynnwys clustogfeydd)
	Llanybydder	Ger Y Neuadd	SeC13/h1	10	Glaswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a rhai coed aeddfed ar hyd y ffin	Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych.
	Pencader	Garej Blossom	SeC14/h1	20	Llawr caled, strwythurau, coed aeddfed ar y ffin, rhywfaint o laswelltir.	Cadw coed (gan gynnwys clustogfeydd). Yn dibynnu ar arolygon
		Tir ger Maescader	SeC14/h2	24	Glaswelltir, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin	Yn dibynnu ar arolwg. Cadw gwrychoedd a choed aeddfed (gan gynnwys clustogfeydd).
Haen 3	Llangeler	Tir gyferbyn â Brogeler	SuV33/h1	5	Glaswelltir wedi'i wella, gwrych ar hyd y ffin ogleddol	Cadw neu drawsblannu gwrychoedd. Cyfleodd posibl o Fudd Net i Fioamrywiaeth.
	Saron/Rhos	Tir ger Arwynfa	SuV35/h1	6	Glaswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin	Cadw neu drawsblannu gwrychoedd. Cyfleodd posibl o Fudd Net i Fioamrywiaeth.
	Llanllwni	Cae Pensarn Helen	SuV36/h1	6	Glaswelltir wedi'i wella, gwrych ar hyd y ffin	Dim sylwadau mewn perthynas â Phennod 6.
		Tir ym Mryndulais	SuV36/h2	16	Glaswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choed aeddfed ar hyd y ffin	Dim sylwadau mewn perthynas â Phennod 6.
	Cwm-ann	Tir i'r de o Cae Coedmor	SuV37/h2	20	Cae amaethyddol gynt, yn araf droi'n brysgwydd, gwrychoedd, coedlinau, ffosydd	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfa dorlannol o 7m o amgylch cyrsiau dŵr. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych.

		Tir gerllaw Lleinau	SuV37/h3	10	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i led-wella, gwrychoedd, coedlinau	Yn dibynnu ar arolwg, posibilrwydd o liniaru / gwneud iawn am unrhyw laswelltir diddorol. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych.
--	--	------------------------	----------	----	--	--

	Capel Iwan	Maes y Bryn	SuV38/h1	6	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i led-wella, gyda hanes o gael ei aflonyddu	Yn dibynnu ar arolwg, posibilrwydd o liniaru / gwneud iawn am laswelltir. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych.
--	-------------------	-------------	----------	---	---	--

	Llanfihangel ar arth	Ger Yr Hendre	SuV39/h1	7	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i led-wella	Yn dibynnu ar arolwg, posibilrwydd o liniaru / gwneud iawn am laswelltir. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych.
--	-----------------------------	---------------	----------	---	---	--

	New Inn	Blossom Inn	SuV43/h1	5	Gwaith eisoes wedi dechrau ar hanner y safle. Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i led-wella. Rhan o'r safle o ddiddordeb ymlusgiaid posibl	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych. Lliniaru posibl, ac ati ar gyfer glaswelltir niwtral.
--	----------------	-------------	----------	---	--	--

Cyfanswm y clwstwr				172		
---------------------------	--	--	--	------------	--	--

Haen 2	Llanymddyfri	Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi	SeC15/h2	8	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i led-wella. Coetir llydanddail lled-naturiol yn y gornel ogledd-ddwyreiniol a gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrych. Lliniaru posibl, ac ati ar gyfer glaswelltir niwtral. Clustogfa rhwng coetir llydanddail lled-naturiol
--------	---------------------	---------------------------------	----------	---	---	---

	Llandeilo	Chwarter Gogleddol Llandeilo	SeC16/h1	27	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i led-wella gyda choedlinau a gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Mesurau lliniaru posibl, ac ati. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd. Posibilrwydd o gadw prysgwydd yn y gornel dde-orllewinol.
--	------------------	------------------------------	----------	----	--	---

	Llangadog	Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog	SeC17/h1	16	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i ledwella gyda choedlinau. Gall fod yn gyforiog o rywogaethau h.y. dŵl iseldir (yn dibynnu ar arolwg). Poblogaeth ymlusgiaid o bosibl	Yn dibynnu ar arolwg. Mesurau lliniaru posibl, ac ati. Clustogfeydd ar gyfer coed. Mesurau lliniaru posibl ar gyfer unrhyw ymlusgiaid.
		Tir oddi ar Heol Pendref	Sec17/h2	8	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd	Cadw gwrychoedd neu fesurau lliniaru

Haen 3	Cwmifor	Gyferbyn â Neuadd y Pentref	SuV51/h1	8	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Cadw gwrychoedd neu fesurau lliniaru
--------	----------------	-----------------------------	----------	---	---	--

Cyfanswm y clwstwr				67		
---------------------------	--	--	--	-----------	--	--

Haen 2	Sanclêr / Pwll Trap	Ger Britannia Terrace	SeC18/h1	60	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choedlinau helaeth	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coedlinau / gwrychoedd.
		Tir ger Cefn Maes	SeC18/h3	100	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choedlinau	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coedlinau / gwrychoedd.
		Tir ar Heol Llaindelyn	SeC18/h4	6	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choed	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd.
		Tir ger Gwynfa, Heol yr Orsaf	SeC18/h5	8	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella a gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer gwrychoedd.
		Tir y tu ôl i Heol yr Orsaf	SeC18/h6	25	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choed	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd.
		Tir ger Caeau Gardde	SeC18/h7	8	Ymddengys ei fod yn laswelltir niwtral wedi'i ledwella gyda gwrychoedd /	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coedlinau a gwrychoedd. Gall fod angen mesurau lliniaru ar gyfer glaswelltir, ac ati

					coed. Gall fod yn gyforiog o rywogaethau h.y. dôl iseldir (yn dibynnu ar arolwg)	
	Hendy-gwyn ar Daf	Tir yn Park View, Trefechan	SeC19/h1	8	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choed a chwrs dŵr	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfa ar hyd cwrs dŵr (Afon Gronw) Prysgwydd / coetir.
		Tir yn Hufenfa Hendy-gwyn ar Daf	SeC19/h2	20	Safle diwydiannol gynt, gwrychoedd, prysgwydd, cwrs dŵr (Afon Gronw)	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfa ar hyd cwrs dŵr (Afon Gronw) Prysgwydd / coetir.
	Talacharn	Tir oddi ar Clifton Street	SeC20/h3	6	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choedlinau	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd.
Haen 3	Glandy Cross	Tir i'r gogledd o Dafarn Cross Inn	SuV55/h2	6	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella a gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer gwrychoedd.
	Efail-wen	Tir y tu ôl i Dalar Wen	SuV56/h1	6	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella a gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer gwrychoedd.
	Meidrim	Tir ger Lôn Dewi	SuV58/h1	10	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choedlinau	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd.
		Tir oddi ar Heol Drefach	SuV58/h2	14	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choedlinau	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd.
	Bancyfelin	I'r gogledd o Faes y Llewod	SuV59/h2	19	Ymddengys ei fod yn laswelltir wedi'i wella a gwrychoedd	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer gwrychoedd.

	Llangynog	Tir yn College Bach	SuV60/h1	6	Gall fod yn laswelltir corsiog gyda choedlinau, gwrychoedd a chwrs dŵr ar y ffin	Yn dibynnu ar arolwg. Clustogfeydd ar gyfer coed a gwrychoedd.
--	------------------	---------------------	----------	---	--	--

	Pentywyn	Tir ar Fferm Nieuport	SuV61/h1	5	Fferm gynt ac iard	Diogelu coed a gwrych.
--	-----------------	-----------------------	----------	---	--------------------	------------------------

Cyfanswm y clwstwr		307
---------------------------	--	------------

Cyfanswm y Dyraniad Tai yn gyfan gwbl	2676
--	-------------

Cyfeirnod CDLI	Enw'r Safle	Lleoliad	Dosbarth Defnydd	Hectarau	Nodweddion Posibl (yn seiliedig ar ddelweddau lloeren a haenau GIS)	Ystyriaethau posibl
PrC1/E1	Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr	Caerfyrddin	B1, B2, B8	4.167	Llawr caled ac adeiladau yn bennaf, rhai coedlinau, coetir i'r gogledd-orllewin a'r de	Osgoi coedlinau a choetir. Lleihau goleuadau ger coed a choedwigoedd
PrC1/E1 (i)	Tir i'r gorllewin o Heol Cillefwr (Gorllewin).		"	2	Glaswelltir wedi'i led-wella, prysgwydd, gwrychoedd/coed hyfryd	Yn dibynnu ar arolwg, bydd angen clustogfeydd ar y coedlinau. Efallai y bydd angen i'r datblygiad fod yn llai
PrC1/E1 (ii)	Tir i'r gogledd o Heol Allt-y-cnap		"	1.215	Glaswelltir wedi'i wella/ei led-wella, coedlin braf ar y ffin orllewinol, coeden aeddfed yn y gornel dde-ddwyreiniol	Dylai fod yn iawn os caiff y coed a'r gwrychoedd eu gwarchod. Dylid cynnal arolwg o'r glaswelltir ond mwy na thebyg ei fod yn iawn

